


CANU GWERIN

(FOLK SONG)

14 · 1991

CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU

THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH 1990-91
OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE 1990-91

Llywydd/*President*: Mrs FRANCES MÔN JONES

Is-lywyddion/*Vice-presidents*:

Dr OSIAN ELLIS, Y Fonesig/*Lady* ENID PARRY,

Mrs G. MEGAN TIBBOTT,

Yr Athro/*Prof.* STEPHEN J. WILLIAMS

Dr MEREDYDD EVANS, Miss MALIEVANS

Mrs SIÂN LLOYD WILLIAMS

Mrs EUNICE BRYN WILLIAMS

Cadeirydd/*Chairperson*: SHÂN EMLYN

Is-gadeirydd/*Vice-chairman*: D. ROY SAER

Pwyllgor Gwaith/*Executive Committee*:

MENNA WILLIAMS, PHYLLIS KINNEY,

MARY LLEWELFRYN DAVIES, E. WYN JAMES,

MYRA REES, GWILYM MORRIS,

DAFYDD IDRIS, SIÂN THOMAS

Ysgrifennydd Cyffredinol/*General Secretary*:

BUDDUG LLOYD ROBERTS

Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth (0766) 522096

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth/*Treasurer and Membership Secretary*:

RHIDIAN GRIFFITHS

Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed.

Ffôn: Aberystwyth (0970) 828683

Swyddog Cyhoeddusrwydd/*Publicity Officer*:

MARIAN REES

Dôl Einion, Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd.

Ffôn: Corris (065 473) 312

Cyd-olygyddion y Cylchgrawn/*Editors of the Journal*:

RHIDIAN GRIFFITHS a RHIANNON IFANS

Archwiliwr/*Auditor*: W. ISLWYN DAVIES

CANU GWERIN (FOLK SONG)

14/1991

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Llinach 'Joanna'	HUW WILLIAMS	5
Yr Hwyl Gymreig	J. LLOYD WILLIAMS	15
Ploughing with Oxen in Glamorgan	T.C. EVANS, 'CADRAWD'	30
Hen Garol o'r Gororau	E. WYN JAMES	40
Robin Bowen yn ateb	ELISE WILLIAMS	47
Fe ddwedai'r hen ddyn wrth ei ferch		51
Eunice Bryn Williams (1919-1991)		53
Nodiadau		54
Notes		55

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Cysodi: Stiwdio Mei
Argraffu: Argraffdy Arfon

Llun y clawr gan Dylan Williams

Nº 62. ROWLANDS P.M. 5.6 # Key.. An old original welsh melody
never before printed.

C.

Thy mercies my God is the theme of my song, the joy of my

heart and the boast of my tongue, Thy free grace a-lone from the first to the

last, hath won my af-fec-tions and bound my soul fast.

'Rowlands' fel y cyhoeddwyd hi gyntaf fel emyn-dôn yn
Sacred Music . . . (tua 1800).

LLINACH 'JOANNA'

Huw Williams

Mewn cyfnod pan yw'n ffasiynol iawn i gludo rhai o alawon cysegredig ein gwlad o'r cysegr i feysydd pêl-droed a rygbi, ac i osod pob math o benillion cwbl ynfyd a di-chwaeth ar ambell un ohonynt, fe anghofir yn aml fod pob enwad crefyddol yng Nghymru erbyn hyn yn canu geiriau cysegredig ar alawon seciwlar a fu unwaith yn cael eu cysylltu â baledi di-chwaeth, a'u canu mewn ffeiriau, marchnadoedd, a thafarndai.

Mae'n wir fod llawer o'r alawon hynny erbyn heddiw wedi cael 'eu puro a'u glanhau' nes eu bod yn gwbl dderbyniol i'r saint fel cyfryngau mawl, a thrwy rym arferiad fe anghofiodd y mwyafrif mawr sydd bellach yn eu canu y bu iddynt erioed unrhyw gysylltiad seciwlar.

Fellir dadlau, wrth gwrs, fod yr un peth yn wir am amryw o alawon gwerin Seisnig, a bod rhai o gasgliadau tonau'r Sais hefyd sy'n cynnwys 'emyn-donau' a fu ar un adeg yn cael eu rhestru ymhlith ffefrynnau'r 'ddawns a'r gyfeddach'. Un enghraifft yw'r casgliad *The English Hymnal* (1906), wedi ei olygu gan y Dr R. Vaughan Williams, sy'n cynnwys nifer go dda o 'donau' ('Gosterwood', 'Monks Gate', a.y.y.b.) y gwyddys i sicrwydd eu bod yn gyfaddasiadau o alawon gwerin Seisnig.

Enghraifft arall — ac un well, efallai — yw *Songs of Praise* (1931), y casgliad uchel-ael hwnnw wedi ei olygu gan Percy Dearmer, Martin Shaw, a'r Dr R. Vaughan Williams, ac sy'n cynnwys bron i hanner cant o 'emyn-donau' Cymreig, gyda mwy na hanner y rheini ('Llansannan'; 'Trefaenan', sef 'Migldi Magldi' i ni; 'Suo Gân' a.y.y.b.) yn alawon y gwyddys bod eu gwreiddiau'n ddwfn iawn mewn meysydd gwerin.

Ond ar ôl dweud hynny, fe ŵyr pawb sy'n ymddiddori yn ein halawon gwerin brodorol fod yna ddau wahaniaeth sylfaenol rhwng yr 'Alawon Cymreig' sy'n ymddangos mewn llyfrau tonau Cymreig, a'r rhai Seisnig cyfatebol a arddelir gan y gwahanol enwadau yn Lloegr.


Un ydyw na fu'r arbrawf i gyfaddasu rhai o alawon gwerin Lloegr fel cyfryngau mawl mewn casgliadau fel y rhai a nodir uchod yn un arbennig o lwyddiannus, ac eithrio yn hanes ambell i alaw. Ffurf o ymarfer academaidd oedd trosi alawon gwerin yn emyn-donau yn Lloegr, ond y cynulleidfaoedd yn hytrach nag ysgolheigion a fu'n bennaf gyfrifol am y gwaith hwnnw yng Nghymru.

Ac yn yr ail le, ni fyddai llawer o'n halawon gwerin gorau wedi goroesi erbyn nawdegau'r ugeinfed ganrif onibai fod ambell i gerddor

CAN MLYNEDD I 'NAWR (*A hundred years from now.*)

Do h Bb.

{ :d | l, :f, :l, | t, :s, :d | l, :r :s, t, | d :- :d }



{ | l, :f, :l, | t, :s, :d .r | m :m :r | d :- || }



{ :d .r | m :m :s .f | m :d :d .r | m :m :s | r :- :d .r }



{ | m :l, :d | t, :s, :d .r | m :m :r | d :- || }



'Can mlynedd i 'nawr' fel y'i ceir yn Llawysgrifau John Jenkins, 'Ifor Ceri' (daw'r copi uchod o *Gylchgrawn y Gymdeithas*, cyf. 1, rhan 3, 1911, t127).

diwyd o dridegau ac o bedwardegau'r ganrif ddiwethaf wedi eu cofnodi a'u cwtogi'n emyn-donau, a bod ein cynulleidfaoedd — y werin bobl — wedi eu harddel yn y gwasanaethau crefyddol dros gyfnod o ganrif a hanner.

A siarad yn gyffredinol, braidd yn hwyrfrydig yw'r enwadau ymneilltuol Cymraeg i ddefnyddio alawon gwerin ac alawon 'traddodiadol' brodorol adnabyddus yn oedfaon y Sul, o gymharu â'r defnydd helaeth a wneir ohonynt yn Lloegr a'r Amerig, ac y mae'n ddiamau y gellir priodoli hynny — yn rhannol beth bynnag — i'r arfer o gysylltu penillion ysgafn a gwamal â'r alawon ar hyd y blynyddoedd.

Gwaith poenus o araf, yn gofyn am lawer o amynedd ar ran yr ymchwilydd, yw olrhain rhai o'r emyn-donau sydd heddiw'n dwyn y label 'Alaw Gymreig' yn y casgliadau tonau enwadol, a cheisio penderfynu beth oedd ffurfiau gwreiddiol yr alawon hynny. Dros hanner canrif yn ôl bellach, sylwodd James T. Lightwood — ymchwilydd diwyd ym maes yr emyn-dôn Seisnig — mai maes anodd iawn llafurio ynddo oedd hwn, ac addefodd yn onest:

the whole subject of these traditional tunes is so involved as regards their origin and history, and so many different opinions are prevalent, that it would be inadvisable to attempt to unravel the mystery that surrounds so many of them.

Mi garwn innau ategu sylw Lightwood, a chyfaddef bod yna ambell alaw nad wyf innau'n rhyw siŵr iawn ohoni, a hynny ar ôl ymchwilio i'w 'thras' dros gyfnod lled faith! Alaw werin y tybiais fy mod yn gryn 'awdurdod' ar ei hanes hyd at yn gymharol ddiweddar yw honno sy'n gyngwysedig fel emyn-dôn yn y mwyafrif o'r casgliadau tonau Cymraeg (a Saesneg ac Americanaidd hefyd erbyn hyn) o dan yr enw 'Joanna' neu 'St Denio'.

Bûm ar drywydd yr alaw ddiddorol hon flynyddoedd lawer yn ôl bellach, a dysgu oddi wrth *Gylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* (Cyfrol i, tt. 127-141) fod amryw o wahanol darddellau yn cael eu hawgrymu iddi, y fwyaf derbyniol yn faled boblogaidd yng Nghymru tua 1810, yn dwyn y teitl 'Can mlynedd i nawr'. 'Rwy'n cofio hefyd gweld ffurf seciwlar arall ohoni dan yr enw 'Can mlynedd yn ôl' mewn tarddell lawysgrifol yn rhywle, a sylwi ei bod o dan yr enw 'Rowlands' yn y rhan gyntaf o'r gyfrol gyntaf o *Melus Seiniau Cymru* yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, wedi ei chofnodi gan Ifor Ceri (tua 1820, meddir), gyda'i ffurf ychydig yn wahanol i'r emyn-dôn fel yr ydym ni yn ei hadnabod yn awr.

Hig a Bywlog.

The musical score is written in 3/4 time with a key signature of one flat (B-flat). It consists of four staves. The first three staves are vocal parts, and the fourth is a piano accompaniment. The lyrics are written below the piano part.

O gariad, O gariad, anfeidrol ei falnt, &c. Cael heddwch cydwybod a'i chllirio trwy'r gwaed, A chorh y farwolaeth aef pechod dan draed.

D

'Palestina' o *Caniadau* y *Cyssegr* gan John Roberts (Dinbych, 1839).

Credais yn siŵr ar un adeg i'r alaw ymddangos gyntaf fel emyn-dôn o dan yr enw 'Palestina' (ac ychydig yn wahanol i ffurf Ifor Ceri) yn y casgliad *Caniadau y Cyssegr*, wedi ei ddarparu gan John Roberts, Henllan, a'i gyhoeddi ym 1839, a byddai hynny'n dal yn wir pe dywedwn mai cyfrol bwysig y cerddor diwyd o Henllan oedd y gyntaf i'w chyhoeddi yng Nghymru i gynnwys copi argraffedig o'r alaw ar ffurf emyn-dôn.

Cyfrol yw *Caniadau y Cyssegr*, gyda llaw, ag y mae ei chynnwys yn cynrychioli'r math o ganu cynulleidfaoi a oedd mewn bri yng Nghymru (neu o leiaf mewn rhan o ogledd-ddwyrain ein gwlad) ganrif a hanner yn ôl, a chan ei bod yn arferiad gan John Roberts, ei golygydd, gasglu alawon ar lafar yn ei fro, a'i fod yn ôl pob tystiolaeth yn parchu'r hen alawon hynny, y tebyg yw iddo gyhoeddi 'Palestina' heb ymgeisio i'w 'phuro a'i glanhau'.

Rai blynyddoedd ar ôl imi gyhoeddi *Tonau a'u Hawduron* (1967), a minnau un diwrnod yn astudio cynnwys cyfrol Saesneg yn Llyfrgell Gerdd y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain, trawodd fy llygaid yn hollol ddamweiniol ar 'Joanna' yn cael ei chysylltu ag emyn Saesneg bron ddeugain mlynedd cyn iddi ymddangos yng nghasgliad John Roberts, Henllan, nes peri imi ofyn tybed a oedd hi'n cael ei defnyddio fel emyn-dôn yma yng Nghymru hefyd yn y ddeunawfed ganrif?

Teitl llawn y gyfrol Seisnig y gwelais 'Joanna' ynddi, a hynny dan yr enw 'Rowlands', oedd *Sacred Music, containing 250 favorite tunes comprehending all the different metres, and adapted to a new selection of hymns by the Revd Mr Boden and Dr Williams*. Uwchben yr alaw (rhif 62), sydd wedi ei gosod yn y casgliad ar gyfer yr emyn, 'Thy mercies my God is the theme of my song/The Joy of my heart and the boast of my tongue/Thy free grace alone from the first to the last/Hath won my affections and bound my soul fast', ac sy'n amlwg yn amrywiad o'r alaw 'Can mlynedd i nawr' (a gyfenwir 'Rowlands' hefyd gan Jenkins Ceri), ceir yr ysgrif: 'An old original Welsh melody, never before printed'.

Golygydd y gyfrol, sydd heb ei dyddio, gan y Dr Edward Miller (awdur y dôn 'Rockingham', a genir fel rheol yn Lloegr ar 'When I survey the wondrous cross'), a'i hargraffu dros y golygydd yn Llundain gan 'T. Williams'.

Yn dilyn darganfod 'Joanna' dan yr enw 'Rowlands' mewn cyfrol Seisnig wedi ei chyhoeddi cyn 1839, y mae'n briodol gofyn dau gwestiwn, sef yn gyntaf beth oedd dyddiad ei chyhoeddi gan Edward Miller, ac yn ail, o ble tybed y cafodd cerddor na fu ganddo erioed gysylltiad â Chymru afael ar 'Joanna' i'w chynnwys yn ei gyfrol?

Doh | d | l, : f, : r | t, : s, : d | n n : r | d :- |
 Ab | s, : f, : f, : l, | s, : s, : n, | s, : s, : f, | n, :- |

lun | d | l, : f, : r | t, : d | d : d : t, | d :- |
 : d, | f, : f, : r, | s, : s, : l, | s, : s, : s, | d, :- |

| d | n n : s | n : d : d | n n : s | r :- |
 : s, | s, : s, : s, | s, : s, : l, | s, : l, : s, | s, :- |

| n | d : d : r | n n : n | n : d : d | t, :- |
 : d, | d : d : t, | d : d : l, | d : l, : n, : f, | s, :- |

| n | d : l, : r | t : s, : d | n n : r | d :- || d d |
 : s, | l, : f, : l, | s, : s, : n, | s, : s, : t, | s, :- || l, s, |

A - men

| d | d : d : f | r : t, : d | d : d : s, : f | n :- || f n |
 : d, | f, : f, : r, | s, : s, : l, | s, : s, : s, | d, :- || f, d, |

Y dôn 'Joanna' (neu 'St. Denio') fel y'i cenir gan
 gynulleidfaoedd heddiw.

Credaf fod y cwestiwn cyntaf yn un haws i'w ateb na'r ail, gan fod y copi o *Sacred Music* . . . a welais i yn Llundain (nid oes copi yn ein Llyfrgell Genedlaethol) yn dwyn y dyfrnod '1800' yn eglur ddigon ar y tudalen lle'r argraffwyd y rhan olaf o restr tanysgrifwyr y gyfrol. Fe olyga hyn na chyhoeddwyd mo'r gyfrol cyn 1800, a'i bod felly yn rhesymol casglu mai yn ystod y flwyddyn honno, neu ynteu'n fuan ar ôl hynny yr argraffwyd hi.

Un o'r argraffwyr bychain oedd 'T. Williams', a chan ei bod yn annhebyg iawn oherwydd hynny y gallai fforddio cadw cyflenwad o bapur drud yn ei warws am gyfnod maith, cesglir mai'n arbennig ar gyfer argraffu cyfrol Edward Miller (sy'n un eithaf swmpus) y prynodd y papur. A'r cefndir hwnnw mae'n debyg oedd gan awdurdodau'r Llyfrgell Brydeinig mewn golwg pan ddyddiwyd y gyfrol 1800? ym mynegai'r Llyfrgell, ac awgrymu'n gynnil mai ym 1800 neu ym 1801 (sef 38 o flynyddoedd cyn cyhoeddi *Caniadau* y *Cyssegr* gan John Roberts, Henllan) yr argraffwyd hi.

Ond pwy tybed a ddarbwyllodd Edward Miller i gyhoeddi'r hen alaw? Mi garwn awgrymu fod deubeth ar wyneb-ddalen y gyfrol *Sacred Music* . . . a allai fod o help i ddatrys y dirgelwch hwnnw. Un ydyw enw'r argraffydd, sef T. Williams, gŵr y tybiais unwaith ei fod yn frawd i Evan Williams, y ddau ohonynt, meddir, yn argraffwyr llyfrau 'o ddiddordeb i'r Cymry' yn Llundain yn ystod rhan olaf y ddeunawfed ganrif a blynnyddoedd cyntaf y ganrif ddilynol, a meibion i Dafydd Wiliam, un o 'gynghorwyr' cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn sir Aberteifi, a gŵr y dywedir i Daniel Rowland ei ddewis i ymweld bob tri mis â gogledd Cymru i bwrpas cenhadu.

'Roedd Dafydd Wiliam yn adnabod Daniel Rowland yn dda, a byddai wedi bod yn sgŵp ddihafal pe llwyddwn i brofi fod 'Rowlands' yn alaw a genid yng nghyrdau diwygiadol y pregethwr mawr o Langeitho yn y ddeunawfed ganrif, ac yn alaw y clywsai'r meibion, Evan a Thomas Williams, eu tad yn ei chanu.

Ond yn anffodus, nid oes tystiolaeth sy'n cysylltu argraffydd *Sacred Music* . . . â Chymru. Yn ôl geiriadur safonol Humphries & Smith, *Music Publishing in the British Isles* (ail arg. 1970), o gyfeiriad yn y Strand yn Llundain y byddai'r brodyr Williams o Geredigion yn cyhoeddi llyfrau, ond yn rhif 10, Stationers' Court, Ludgate Hill, yr oedd busnes Thomas Williams, argraffydd *Sacred Music* . . . yn ogystal ag amryw o weithiau cerddorol eraill rhwng tua 1800 a 1818. A chyfeiriad yr argraffydd o Ludgate Hill a gysylltir â phob argraffiad o *Sacred Music* . . . a welais i, y cyfan ohonynt wedi eu cyhoeddi gan Edward Miller fel atodiad i'w gyfrol adnabyddus, *Dr Watts' Psalms and Hymns*.

Ond nid yw ein damcaniaethu ar ben eto, gan fod cyfeiriad at 'Dr Williams' yn nheitol cyfrol Edward Miller sy'n ein rhoi ar drywydd arall eithaf dibynadwy. Y 'Dr Williams' hwn oedd y diwinydd enwog y Dr Edward Williams, Rotherham, brodor o ardal Bodfari, a gŵr a gyhoeddodd 'argraffiad o Salmau a Hymnau Dr Watts gydag atodiad gwerthfawr' (ys dywedir yn y *Gwyddoniadur Cymreig*).

Gan mai rhyw ddeuddeng milltir o Rotherham yw Doncaster, lle'r oedd y Dr Edward Miller yn organydd eglwys y plwyf yn ystod 1756-1807, mae'n eithaf tebyg bod y diwinydd a'r cerddor yn adnabod ei gilydd yn dda, ac mai'r naill a ganodd 'Rowlands' i'r llall i'w chofnodi a'i chyhoeddi.

Ond nid dyna ddiwedd y stori ychwaith. Yn ôl yr hanes fe glywodd y Dr Edward Williams Daniel Rowland yn pregethu pan oedd yn ŵr ieuanc, ac ymunodd â'r Methodistiaid cyn iddo ddechrau pregethu gyda'r Annibynwyr. Tybed felly a fyddwn i'n cael fy nghyhuddo o fynd dros ben llestri pe awgrymwn fod y Dr Edward Williams wedi clywed canu 'Rowlands' yn rhai o gyrddau mawr Daniel Rowland yn nyddiau ei ieuencid, a bod yr alaw yn dwyn enw'r diwygiwr am ei bod yn un o ffefrynnau mawr y cyfnod hwnnw?

Yn ddiweddarach, fel y ceisiais nodi, aeth 'Rowlands' yn 'Balestina', ac yna rywbryd ar ôl 1839 aeth 'Palestina' yn 'Joanna' a 'Joanna' yn 'St Denio'. Pam a sut y digwyddodd hynny tybed? Mi adawaf i rywun arall geisio datrys y dirgelwch!

(Atgynhyrchir yr ysgrif uchod o *Barn*, 327, Ebrill 1990, trwy ganiatâd caredig y Golygydd.)

SUMMARY

The hymn-tune 'Joanna' (in English hymn-books 'St Denio') is usually described as a traditional Welsh melody, associated with a ballad called 'Can mlynedd i nawr' ('A hundred years from now'). The earliest printed source is frequently given as Caniadau y Cyssegr by John Roberts of Henllan, published at Denbigh in 1839; but an earlier printed version is to be found in a collection entitled Sacred Music, edited by Edward Miller of Doncaster and published about 1800. The tune is there given the name 'Rowlands', and described as 'an old original Welsh melody, never before printed'. It is suggested above that the melody may have been communicated to Miller by the Welsh divine Edward Williams (1750-1813), a native of Bodfari, and sometime principal of the Congregationalist academy at Rotherham.



J. Lloyd Williams (1854-1945).

YR HWYL GYMREIG*

J. Lloyd Williams

Yn ddiweddar derbyniais dri o lythyrau yn holi am wybodaeth ynghylch yr hyn a elwir yn bur gyffredin “Yr Hwyl Gymreig,” ac fe ofyn un gohebydd a gyhoeddais i fy syniadau ar y pwnc, ac os do, ymhle?

Do, fe ymddangosodd ysgrif yn ceisio’i hegluro, mewn lle rhyfedd iawn — yn y *Dictionary of Modern Music and Musicians*, a bŵm yn dyfalu llawer pa beth a wnaeth i Olygydd gwaith ar gerddoriaeth “fodern” ofyn imi am erthygl ar beth mor hen ffasiwn â’r “Hwyl,” pwnc sydd, i’r estron, yn un mor ddi-nod.

Efallai y goddefir imi geisio ateb fy ngohebwy ychydig yn llawnach yn y *Cerddor* na’r hyn a ganiateid yn y geiriadur Seisnig. Cyn dechrau manylu y mae tripheth pwysig i’w cofio:

1. Bod egwyddorion gwyddonol yn llywodraethu’r Hwyl; nid ar hap na damwain na mympwy y dibynna ei nodweddion.

2. Nad ydyw’r dull hwn o lafar-ganu yn gyfyngedig i Gymru, er, hwyrach, y defnyddir mwy arni yng Nghymru nag a wneir mewn gwledydd eraill.

3. Yn yr ymchwil i nodweddion yr Hwyl ni roddir pwys yn y byd ar yr “hwyl wneud” sydd mewn bri gan rai o barotiaid y pulpud Cymreig, a fodlona ar ddynwared hwyl effeithiol rhai o’r hen bregethwyr.

BETH YDYW’R GWAHANIAETH RHWNG SIARAD A CHANU?

Gŵyr pawb mai mân donnau yn yr awyr sydd yn achosi’r ymdeimlad o sŵn; a bod maint a chyflymder y tonnau yn penderfynu pa un ai uchel ai isel fydd y seiniau — dyna’r “traw” (*pitch*).

Pan ddigwydd cyfres o donnau o’r un maint a chyflymder, bydd yr hirsain yr un uchder ar ei hyd; a dyna hanfod seiniau cerddorol. Mewn ymddiddan ni cheir mo’r “uniondeb” hwn yn y seiniau — plygant, weithiau i fyny ac weithiau i lawr. Gellir gofyn “Pwy?” gydag oslef esgynnol neu un ddisgynnol, ond i gynhyrchu’r ystumio ar y llais bydd afrifed fân newidiadau ar faint a chyflymder y tonnau.

Mewn siarad undonog ymddengys cylch y llais, neu’r pellter rhwng y seiniau uchaf ac isaf, yn gyfyng; ond fe chwery ambell lais ystwyth drwy gylch pur eang. “Ai e?” meddai cyfaill wrthef ddoe, a’i lais yn dringo’n gyflym drwy gylch o wythawd (*d i d*). Ond y mae rhai alawon syml yn canu o fewn cylch o ddim ond pumawd (*d i s*, neu *l i m*), ac eto, yn

*Ymddangosodd yr ysgrif hon yn *Y Cerddor*, cyf. 7, 1937.

rhyfodd iawn, caiff y glust yr argraff fod ei chylch yn ehangach na chylch y siarad.

Rhwng unrhyw sain a'i hwythawd — *d* i *d'* dyweder — y mae afrifed fân gyfryngau, pob sain â'i thonnau o'r maint a'r cyflymder nodweddiadol o'i thraw. Dywedir y geill clust eithriadol o denau (nid feiddof i, ysywaeth) adnabod cynifer â chant o'r afrifed gyfryngau hyn. Ond, pan geisir canu, gwrthodir y mwyafrif mawr ohonynt, a dewis chwech yn unig at y ddau *doh* — *r*, *m*, *f*, *s*, *l*, a *t*; ac yn gyffelyb gyda'r cywair lleddf.

A'r syndod ydyw bod ein gwaith yn bodloni ar yr ychydig gyfryngau hyn ac ymwrthod â'r miloedd y gallesid eu defnyddio, yn cyfoethogi celfyddyd, ac yn agoryd inni deyrnas lawn o deleidion, ac o arllwysïadau teimlad na cheid mohonynt drwy afradu'r miloedd tonnau seiniol o fewn ein cyrfaedd.

Ac ystyr ein holl drafod ar ganu mewn tiwn ydyw hyn: Unwaith y penderfynwn pa seiniau a chyfryngau a ffurfia ein graddfeydd, rhydd pob gwyrriad oddi wrthynt flinder i glust a chwaeth. Dyma ynteu enghraifft drawiadol o dlodi adnoddau yn dwyn cyfoeth o effeithiolrwydd, a chaethiwed i reolau yn dwyn rhyddid i'r dychymyg a'r enaid.

Pe defnyddiai rhywun seiniau gwastad mewn ymgom gyffredin, fe ystyrir y peth yn chwerthinllyd i'r eithaf. Ond tybier bod swyddog yn rhoddi gorchymyn i gatrawd o filwyr, efe a wna hynny mewn tòn wastad. A phan fo person yn galw sylw un arall heb fod nepell oddi wrtho, bodlona ar weiddi "Hoi" yn sain blygedig lafar; ond os bydd y dyn bellter oddi wrtho, gwaedda "Ohoi!" a'r "o" yn hir a gwastad, ac wedi ei throi yn sain gerddorol. Yr un modd gyda gweiddi enwau nwyddau ar y stryd, neu blant yn cyd-adrodd y *multiplication tables* yn yr ysgol. Pam? Am fod tonnau sain wastad o'r un maint a chyflymder â'i gilydd, ac, o hynny yn atgyfnerthu ei gilydd i drafaelau ymhellach, a swnio'n eglurach. Yn yr enghreifftiau uchod a'u cyffelyb, greddf sy'n arwain y lleiswyr i fanteisio ar ffaith wyddonol. (A chyda llaw, amlwg yw bod y canwyr *variety*, sydd yn arfer ystumio dechrau a diwedd seiniau, yn colli llawer o'r fantais hon, heblaw eu bod ar yr un pryd yn poeni pob clust gerddorol.)

Ond gellir defnyddio'r llais mewn modd nad ydyw nac ymddiddanol, nac ychwaith yn gerddorol, ond rhywbeth rhwng y ddau.

Darllenir, ac adroddir barddoniaeth aruchel mewn "tôn." Clywais cyn hyn gondemnio'r "dôn bregethwrol" a defnyddir wrth ddarllen emyn, a gofyn "Pam na ddarllena'r gŵr yn naturiol, yn null ymddiddan?" Ond peth hollol *an-naturiol* a fyddai gwneud hynny.

Gwn am ddau ŵr, un yn feddyg a'r llall yn ddiakon, a arfera ddarllen yn y modd hwn; ond effaith y darllen yn y dull a dybiant hwy yn "naturiol" ydyw peri i'r farddoniaeth swnio'n chwerthinllyd o *an-naturiol* ac aneffeithiol.

Beth am yr "Hwyl"? Y mae hon yn ddatblygiad pellach o'r lleisio "rheithegol" uchod. Y mae ynddi lawer o lefaru "mewn tŷn," ond tuedda hwnnw fwy-fwy i gyfeiriad lleisio cerddorol, neu ganu.

Clywir llawer o gondemnio gan wŷr deallus, ar "yr hen ganu ynfyd yna," ond, bron yn ddieithriad, yr hyn a gondemnir ydyw yr hwyl gelfyddydol, ddynwaredol — yr "hwyl wneud." Am yr hwyl wirioneddol fe ddigwydd hon yn aml heb i'r gwrandawydd sylwi bod y pregethwr wedi troi i lafar-ganu. Yn wir, fe dry ambell siaradwr i'r hwyl heb yn wybod iddo'i hun.

Dyma ddwy enghraifft. Yr oeddwn newydd ddarlithio ar y pwnc mewn capel neilltuol. Yn nhŷ'r gweinidog dyma hwnnw'n dweud, "Mi fydda' i'n diolch llawer na fŷm i erioed yn euog o ffwlbrî'r 'Hwyl'." "Wel, arhoswch," meddwn innau, "dyma ddarn o'r bregeth a glywais gennych fis yn ôl," a'i llafar-ganu iddo. Yna'r teulu'n chwerthin a gweiddi, "Dyna chi i'r dim, Dadi," ac yntau'n rhythu dau lygad syn ac anghrediniol.

Ar derfyn darlith ar yr un pwnc mewn lle arall, cododd ysgolfeistr, a chyda huodledd ysgubol llwyr gondeinniodd yr "arfer ffôl." Ar hyn dyma'r cadeirydd yn dweud, "A sylwasoch chwi ar y modd effeithiol yr ategodd y siaradwr olaf un o brif osodiadau'r darlithydd — mai teimlad byw ac argyhoeddiad llwyr sydd yn galw'r Hwyl wirioneddol i fod, a hynny'n aml heb i'r siaradwr ei hun wybod ei fod 'mewn hwyl.' Condemniai Mr H yr arfer gyda'r fath angerdd teimlad nes mynd i hwyl wrth gollfarnu'r Hwyl."

Gwelir yn awr fod dwy ystyriaeth a gyfreithlona ryw gymaint o hwyl:

1. Y ffaith anianyddol fod seiniau cerddorol yn fwy hygryw, ac yn "cario'n" well na seiniau llafar.

2. Y ffaith eneidiol fod angerdd teimlad a dwyster argyhoeddiad yn aml yn tueddu i fynegi eu hunain yn seiniau yr hwyl.

Ond, o ystyried y ddwy ffaith yn ofalus, gorfodir ni i'r casgliad mai peth a ddigwydd yn anfynd ydyw y wir Hwyl, ac, yn nes ymlaen, bydd ychwaneg i'w ddywedyd am y gwahanol ffyrdd y sydd o'i chamddefnyddio.

Ymhellach na hyn, wedi ymchwil ddyfal i nodweddion yr Hwyl, daw i'r golau gyfrinion annisgwyl ynglŷn â hi; gwelir hefyd fod mwy o reol a threfn yn perthyn iddi nag a dybia'r cyffredin; a cheir drwyddi beth goleuni diddorol ar hanes cerddoriaeth yr Eglwys fore. A cheisio egluro rhai o'r pethau hyn fydd amcan y nodiadau sy'n dilyn.

Y NEWID O SIARAD I GANU

Cytuna hwyl y gwahanol bersonau yn rhyfeddol mewn rhai neilltuolion; yn eu graddfa — y Modd Doriaidd; yn eu seiniau pwysleisiol, ac yn eu hannibyniaeth ar amser mesuredig. Ond gwahaniaethant mewn pethau llai eu pwys — yn eu cylch (rhai yn gyfyng iawn, eraill yn eang); ac yn y camre a ddilynir o'r siarad i uchafbwynt yr hwyl.

Ceisiwn olrhain camre un o'r rhai mwyaf cyffredin, a chymryd yn enghraifft hwyl hen weddiwr o Eifionydd.

1. Fel y gwresoga teimladau'r gweddiwr, a'i erfyniadau yn myned yn daerach, daw sain wastad o dryblith y seiniau llafar, ac yn raddol hi a ddaw yn amlach, a delir hi'n hwy.

Dyma ynteu y cam cyntaf — llafar-ganu ar un sain. Mewn llawer enghraifft penderfynir traw yr undon (*monotone*) hon gan atseinedd yr adeilad, ac atseinedd llais y gweddiwr — y mae'r sain hon yn ffitio'r ystafell yn well nag eraill, ac yn llai beichus i'r llais.

2. Yn fuan daw sain gerddorol arall i'r hwyl, ac y mae rhywbeth anodd ei esbonio ynglŷn â hon a'i digwydd.

Buasai dyn yn disgwyl sain agosaf y raddfa. A thybied bod honno'n *d*, neu yn *l*, disgwyliem ninnau *r* neu *t* i ddilyn. Yn lle hynny fe naid y llais i'r 3ydd; ac nid y 3ydd mwyaf, ond y lleiaf — nid o *d* i *m*, ond o *l* i *d*. Yn awr fe swnia'r cyfrwng *r-f* yn debyg i *l*-*d*, ond prun sydd gywir? Tra pery cylch yr hwyl yn gyfyng fe swnia'r ddwy raddfa yn union yr un fath:

1. $\widehat{t, d}, r, m$ = y modd Lah, neu y Cywair Lleiaf (neu'r Cywair Lleddf).

$r, \widehat{m, f}, s, l$ = y modd Ray, neu'r Cywair Doriaidd.

Ond unwaith yr ymestyn yr hwyl yn uwch neu yn is na'r pumsain uchod fe genfydd y cerddor mai yn y modd Ray y cenir ac nid yn Lah, neu'r Cywair Lleddf. Rhaid gadael y profion o hyn nes cyrraedd yr ymdriniaeth â'r Hwyl yn ei ffurf ehangaf.

O hyn ymlaen, am ysbaid o leiaf, cenir pob gair pwysig, naill ai ar *r*, neu ar *f*. Weithiau ceir cyfres o'r *r* gydag ambell naid i'r *f* ac yn ôl: bryd arall bydd mwy o'r *f* a throi yn awr ac yn y man i'r *r*. Ychydig o le a roddir i'r *m* sydd rhyngddynt. Caiff ambell gyffyrddiad ysgafn tebyg i'r hyn a eilw'r cyfansoddwyr yn *passing note*, a'r rhan amlaf bydd ei thraw yn fwy ansicr ac annelwig nag eiddo y *r* a'r *f*. Fe ddigwydd hefyd yn niwedd brawddegau yn terfynu gyda'r acen ysgafn; ac yn ddieithriad, cenir yr "Amen" ar y seiniau *m, r*. Am fwyafrif y mân eiriau di-bwyslais, swniant yn debycach i lafar nag i ganu.

Bodlona lliaws mawr o weddiwyr a phregethwyr ar gylch cyfyng *r-f* yn eu hwyl, ac nid anturiant byth dros ei derfynau. Fe aeth miloedd o hen saint o Gymru i'r nefoedd dan erfyn a molianu'n felys o fewn i'r Trydydd Lleiaf hwn. Dyma ynteu y cam pwysicaf a mwyaf cyffredin yn y newid o siarad i hwyl. Fel y dywedwyd eisoes, ceir ef nid yn unig yng nghapeli gwladaidd Cymru ond hefyd mewn gwasanaethau crefyddol estron, ac yng nghanu brodorion hanner-gwâr Canol Amerig a lleoedd eraill.

Yma cyfyd cwestiwn naturiol. Pam y myn y teimlad ei fynegi ei hun yn y cyfrwng *r-f*, neu'r Trydydd Lleiaf? Dan ei enw *l*, dyma'r cyfrwng a rydd ei gymeriad galarus i lawer o fiwsig y Cywair Lleddf — yr enw arall ar y Cywair Lleiaf, neu'r Modd Lah. Ac eto dyma'r cyfrwng a ddefnyddir gan yr Hwyl i ddatgan pob math o angerdd teimlad o ymostyngiad ac erfyniad ar un llaw, i oruchafiaeth a gorfoledd ar y llall.

Ond oni buasai'n fwy priodol a llawer mwy effeithiol defnyddio'r cyfrwng *d-m*, Trydydd Mwyaf y Cywair Llon, neu'r Cywair Mwyaf, i arllwys teimladau o hyder a gorfoledd? Ond, ar waethaf pob ymresymu fe erys y ffaith mai hanfod pob hwyl wirioneddol, nid yng Nghymru'n unig, ond mewn gwledydd eraill hefyd, ydyw'r Trydydd Lleiaf, a hwnnw'n rhan, nid o'r Cywair Lleddf, ond o'r hen Fodd Doriaidd.

Awn yn ôl i wrando ar yr hen weddiwr o Eifion. Wedi hir ymrwyfo'n felys yng nghyfrwng y Trydydd Lleiaf, a chael llawer o amrywiaeth o'i deirsain syml, gwresoga'i deimlad, â'i erfyniadau'n daerach; yna'n sydyn tery sain newydd ar y glust — y *s*, a dyma raddfa'r gweddiwr erbyn hyn yn bedwarnod ac yn cyfateb i "Tetrachord" y cerddorion clasur hynafol. Pan ddaw'r sain newydd hon yn hollol naturiol a greddfol o waelod calon hen weddiwr duwiol bydd rhyw ddylanwad gwefreiddiol yn cydfynd â hi: ond druan o'r dynwarediad celfyddydol a geir gan ambell bregethwr — fel rheol y mae'n boenus o ddieffraith.

Dyma derfynau eithaf Hwyl lliaws o bregethwyr a gweddiwyr, ac nid anturiant byth y tu allan i'r cylch *r, m, f, s*; ond, yn naturiol, ceir mwy o amrywiaeth ohono nag a geir o'r Trydydd Lleiaf, a rhag llaw cenir llawer o'r prif eiriau ar y *s* yn gystal ag ar *r* neu *f*.

Ond y mae eraill a chwanega y *l* at y seiniau a gafwyd eisoes, a dyma gylch sydd bron mor gyffredin â chylch elfennol y teirsain. Tra bo'r cylch yn ehangu fel hyn daw mwy a mwy o amrywiaeth i'r Hwyl; ar yr un pryd bydd yn fwy anodd cadw ei naturioldeb, ac unwaith y collir hwnnw, a'r gynulleidfa yn dyfod yn rhy ymwybodol fod y weddi neu'r bregeth yn cael ei chanu, dyna golli effaith a'r gwrandawyr yn mwynhau y "diwn" yn hytrach na sylweddoli'r meddyliau.

Ychydig ydyw nifer y siaradwyr yr ymestyn eu Hwyl uwchlaw'r pumed (l), nac ychwaith islaw'r cywair (r); ond cyn gynted ag yr eir dros derfynau Hwyl y pumsain (r-l) canfyddir ar unwaith nad yn y Cywair Lleddf y cenir, er mai dyna'r argraff gyntaf a geir. Oherwydd bod y pwnc yn un pwysig ac yn hynod o ddiddorol, a bod llawer yn cwyno ei fod yn anodd ei ddeall, goddefer inni gymryd ychydig o bwyll uwch ei ben. Dyma'r math o frawddeg a ddigwydd yn yr Hwyl yn ei ffurf ehangaf:

$r \mid l \ t \ l \ f \mid s \ m \ r \ m \mid d \ r$

Yn dilyn dyma bedair graddfa wedi eu gosod yn gyfochrog er mwyn gweled pa le y digwydd yr hanner tonau (m-f; t|-d; se-l); oblegid gŵyr y cerddor mai lleoliad y rhai hyn sydd yn penderfynu cymeriad y raddfa ac effaith feddyliol y miwsig a genir ynddi.

Dyma enwau'r graddfâu:

I. Y Cywair Llon, neu'r Cywair Mwyaf, neu'r Modd Doh.

II. Y Cywair Lleddf, neu'r Cywair Lleiaf, neu'r Modd Lah yn ei ffurf ddiweddar.

III. Y Cywair Lleddf yn ei ffurf hynafol, a elwir hefyd y Modd Aeolaidd.

IV. Y Modd Ray, neu'r Cywair Doriaidd.

(Sylwer bod yr hanner tonau yn cael eu dangos yn fwy amlwg drwy gyplysu eu nodau.)

	I.	II.	III.	IV.
8.	{ d —	{ l —	l —	r
7.	{ t —	{ se —	— —	—
6.		ba —	— —	{ d
5.			{ f ..	..
4.	{ s —	m —	{ m —	l
3.	{ f —			..
2.	{ m —		r —	s
1.		{ d —	{ d —	{ f
	r —	{ t —	{ t —	{ m
				..
	D —	L —	L —	R

Yn y ddwy raddfa III a IV gwelir bod lleoliad y seiniau o 1 i 5 yn cyfateb i'r dim. Oherwydd hyn gellir galw brawddeg fel *m*, *d*, *t*, *l*, yn *l*, *f*, *m*, *r*, heb newid dim ar ei heffaith gerddorol. Ond pan gyfyd yr Hwyl i'r 6ed, ceir bod y cyfrwng newydd yn fwy na'r hanner tôn (*m-f*) a nodwedda rif III o'r graddfâu. Ambell waith fe ddisgyn yr Hwyl un cam islaw'r cywair; ond, yn lle bod hwnnw'n hanner tôn fel yn *l*, *se*, *l*, y mae bob amser yn nes i fod yn dôn gyfan, fel *r*, *d*, *r*.

Dyna ynteu rai o'r profion mai yn y Modd Doriaidd y cenir seiniau yr Hwyl, ac nid yn y Cywair Lleddf fel y tybir yn gyffredin.

Beth am y Cywair Llon, neu'r Modd Doh? Gwir fod esiamplau o Hwyl D. Roberts, Llwynhendy, wedi eu cofnodi yn y Cywair hwnnw; ond, gan i mi glywed a chofnodi cannoedd o enghreifftiau o hwyl gwahanol lefarwyr heb erioed glywed cymaint ag un yn y Cywair Mwyaf, tueddaf i gredu bod mwy o fwriad nag o reddf yng nghanu'r hen bregethwr o Lwynhendy.

Dyna ni'n awr wedi olrhain esiampl o'r Hwyl yn ymddatblygu'n raddol o lafar i unsain, yna i'r 3ydd Lleiaf, ac oddi yno i'r 4ydd, y 5ed a'r 6ed. Dyna gwrs yr Hwyl fwyaf naturiol a'r un sydd yn dyfod ohoni ei hun. Am yr Hwyl a glywir amlaf, fe naid y llefarydd i'w chanol yn sydyn a'i "diwn" yn amlwg o'r nodyn cyntaf. Yn y math cyntaf fe ddigwydd yn aml fod y gweddiwr neu'r pregethwr yn lithro i'r Hwyl heb i'r gwrandawydd sylwi pa bryd y bu'r newid o lafar i ganu; ac, yn aml heb i'r llefarydd ei hun fod yn ymwybodol o'r trawsgyweiriad. Y cyntaf ydyw'r mwyaf diddorol i sylwi arno, a mwyaf buddiol i'w efrydu. Am yr ail pair sydynrwydd y newid fod y bwriad, a rhyw gymaint o ymarferiad yn amlwg — weithiau yn boenus felly.

O BALE Y TARDODD YR HWYL?

Yr ydys eisoes wedi llwyddo i brofi bod rhesymau anianyddol yn cyfiawnhau rhyw gymaint o'r arfer o ganu lle bo tyrfa'n gwrandao a'r llefarydd dan ddylanwad angerdd teimlad. Ond dyma sy'n anodd — egluro paham y cytunir mor gyffredinol i ganu seiniau'r Hwyl mewn un Cywair, a hwnnw y mwyaf dieithr yng ngherddoriaeth ein cyfnod. Ni wŷr y canwr cyffredin am ddim ond dau gywair — y Llon, a'r Lleddf — ac eto fe gân yn hollol gywir mewn graddfa na wŷr gymaint â'i henw, heb sôn am wybod y gwahaniaeth rhyngddi a'r ddau gywair a glyw yn fwyaf cyffredin.

Credai'r diweddar Syr O.M. Edwards mai olion gwasanaeth cerddorol yr Eglwys Babaidd a ffynnai yng Nghymru hyd gyfnod y Tuduriaid, ydyw'r canu rhyfedd hwn. Ar un olwg ymddengys yr

eglhurhad yn un eithaf rhesymol. O wrando ar gân-wasanaeth rhai o eglwysi Pabyddol y Cyfandir clywir digon o ganu a awgryma nodau'r "Hwyl Gymreig," a llawer ohono yng nghylch cyfyng y 3ydd Lleiaf, sydd mor gyffredin yn ardaloedd gwledig Cymru; ac yn rhai o'r Salmdonau Gregoraidd fe glywir tinc yr Hwyl yn bur amlwg.

Ond wedi ystyriaeth ofalus gwelir ei bod yn annichon i'r eglurhad hwn fod yn gywir. Pe cofio a dynwared yn unig a wnâi'r gweddiwyr a'r pregethwyr, gellir bod yn berffaith sicr y byddai eu canu bron yn gyfangwbl yn y Cywair Llon, neu ynteu yn y Cywair Lleddf, oblegid dyna'n unig a glywant mewn byd ac eglwys o un pen i'r flwyddyn i'r llall.

Na, nid mater o hanes a thraddodiad ydyw'r Hwyl — y mae ynddi rywbeth dyfnach, a'i wreiddiau yn yr enaid, nid yn y cof yn unig. Nid oes amheuaeth am ei debygrwydd i ganu'r Eglwys Fore, ond o ble y daeth hwnnw? Ysgrifennwyd cyfrolau ar gyfrolau i geisio ei olrhain yn ôl i ganu'r Deml yn Jerwsalem, neu ynteu i ganu Groeg hynafol; ond, i mi, nid oes fymryn o werth yn yr holl archwilio a dyfalu llafurus ac ysgolheigaidd hwn.

Fel y dywedwyd, y mae'r ddau ganu'n debyg iawn i'w gilydd, ond nid ydyw tebygrwydd, ynddo'i hun, yn braw o berthynas.

Credir yn gyffredinol fod y Modd Ray yn hŷn na'r Modd Doh a'r Modd Lah, ac mai y rheswm am bwysigrwydd y ddau ddiwethaf yng ngherddoriaeth heddiw ydyw eu bod yn haws i'w cynganeddu. Ond, heblaw bod llawer o felodïon yr Eglwys Fore yn y cywair hwn y mae llawer o emyn-donau diweddarach wedi eu canu ynddo. Ac er mai diweddar mewn cymhariaeth ydyw emyn-donau Cymru, y mae'n ddiddorol sylwi bod llawer o alawon cryfion yn y cywair hynafol hwn.

Yn *Llyfr Tonau* Ieuan Gwyllt y mae nifer o alawon Almaenaidd a rhai Cymreig yn y Modd Ray; ond, am y rheswm a nodwyd, lleiha eu nifer yn y llyfrau dilynol. Er craffed ydoedd Ieuan, yn ei Fynegai i'r llyfr ni wahaniaetha rhwng y Cywair Lleiaf a'r Modd Ray, ond geilw'r ddeufath wrth yr enw "Y Cywair Lleiaf". Yn llyfr y Methodistiaid fe ddynodir y gwahaniaeth, ond yn ddoniol iawn ni ddigwydd y gair "Ray" ond ar gyfer un yn unig o'r tonau. Ond sylwer bod alawon rhai o'r tonau eraill yn y Modd Ray. Dyna alaw'r dôn gref "Braint" yn esiampl; ond gelwir hi "Y Cywair Lleiaf" oherwydd bod y trefnydd, yn lle ei chynghaneddu yn ei modd priod ei hun wedi ei threfnu yn unol â theithi'r Cywair Lleiaf. (A thrwy hynny collwyd cyfle i ychwanegu at amrywiaeth cynganeddol y llyfr.)

Ceir enghraifft ddiddorol arall o'r dryswch rhwng y ddau gywair yn y dôn "Bangor". Argraffwyd alaw'r dôn yn y Cywair Lleiaf, ond, ar

waethaf dysg y golygwyr ac awdurdod y nodau argraffedig, myn llawer o'n cynulleidfaoedd gwledig ganu'r alaw yn y Modd Ray.

Ond nid yn y canu crefyddol yn unig y ceir y modd hynafol hwn. O'r cannoedd alawon gwerin a gasglwyd yng Nghymru y mae tua'r un nifer yn y Modd Ray ag sydd yn y Modd Lah. Yng nghaneuon gwerin Lloegr hefyd y mae nifer fawr o alawon Doriaidd, a cheir hwynt mewn gwledydd eraill ar gyfandir Ewrob.

Yn awr y mae'n bwysig cofio mai caneuon greddfol y werin ydyw'r caneuon seciwlar hyn, ac nid caneuon a ddysgwyd yn yr eglwysi — yn ôl pob tebyg condemnid hwy gan offeiriaid a mynaich fel ofer-ganeuon.

Ymhellach na hyn ceir canu tebyg i'r Hwyl mewn gwledydd cyn belled â'r India a Chanolbarth yr Amerig, lle y cân y brodor hanner gwâr frawddegau tebycaf a fu erioed i hwyl hen weddiwr o Eifionydd.

Yn wyneb hyn oll y mae'n annichon credu damcaniaeth y "cofio canu'r Eglwys Fore"; a'r unig eglurhad a ffitia'r ffeithiau ydyw fod y dull cerddorol hwn o arllwys teimlad yn deillio'n uniongyrchol o reddf a blannwyd yn yr enaid. Yn awr pwy byth a fuasai'n treulio pum munud i geisio profi bod Cymru heddiw'n canu oherwydd bod y Cristnogion cynnar yn dynwared canu'r Deml Iddewig; neu ein bod yn chwerthin am fod yr hen Roegiaid wedi darganfod pa fodd i chwerthin? Y mae'r pethau hyn yn reddf, ac, oherwydd hynny yn hollol annibynnol ar draddodiad a dysgeidiaeth. Yr un modd am yr Hwyl. Yr achos o'i thebygrwydd i ganu'r Eglwys Fore ydyw bod y ddau wedi deillio o'r un ffynhonnell — rhyw reddf eneidol gyfrin.

Ond dyma gwestiwn na lwyddodd neb hyd yn hyn i'w ateb. Pam y myn y teimlad ymarllwys drwy seiniau'r 3ydd Lleiaf yn hytrach na chyfyngau eraill; a phaham y mae'r gwerinwr mor hoff o'r Modd Ray a esgeulusir gan y cerddor diweddar yn ffafr y *Modern Minor*? Cystal fyddai gofyn pam y mae seiniau hirllaes, a llinellau'r wyneb yn troi tuag i waered, yn ddatganiad o alar; tra y mae gweiddi "Ha, ha, ha!" a throi llinellau'r wyneb tuag i fyny yn foddion i fynegi llawenydd. Er cymaint a ysgrifennodd Darwin ac eraill *On the expression of the Emotions* erys y problem heb ei datrys.

Unwaith y cytunir bod y fath beth â Hwyl wirioneddol, a'i bod yn codi'n reddf, ac anymwybodol o angerdd teimlad, ac o hynny'n cael ei meddiannu'n aml gan gyfriniaeth ac arucheledd, gwelir yr hawlia le pwysig fel moddion i ddylanwadu ar feddyliau gwrandawyr.

Yn anffodus ni ddaw yr hwyl hon wrth ei cheisio. Gellir dweud amdani fel y dywedwyd am wreiddioldeb — po fwyaf y cais dyn fod yn wreiddiol, pellaf yn y byd a fydd o gyrraedd ei amcan. Er mwyn i ddyn ddyfod i afael â'r wir Hwyl dylai fod yn onest ato'i hun a'i neges, yn

llawn argyhoeddiad, ac wedi ei ddonio â'r reddf gerddorol.

ENGHREIFFTIAU

Dechreuwn gyda'r sylmaf a mwyaf cyffredin o ffurfiau'r Hwyl — cyfrwng y 3ydd Lleiaf, $r-f (= l, -d)$. Yn (a) defnyddiai'r pregethwr y r fel ei brifnod areithyddol, gyda dwy ddiweddeb, y ddisgynnol, m , r , ac weithiau yr esgynnol, r , m .

$\begin{array}{ccc} r & & m \quad f \quad \hat{} \end{array}$
(a) "Llawenhaed y cenhedloedd a byddant hyfryd,

$\begin{array}{ccccc} r & m & f & m & r \quad \hat{} \quad r \end{array}$
— canys Ti a ferni y bobl yn union — ac a lywodraethi

$\begin{array}{ccc} m & f & r \quad m \quad \hat{} \end{array}$
ar y cenhedloedd ar y ddaear."

Yn yr enghraifft nesaf y fydyw'r prifnod areithyddol.

$\begin{array}{ccc} f & & r \quad \hat{} \quad f \end{array}$
(b) "Yr Arglwydd a roddes y gair, — mawr oedd
 $\begin{array}{ccc} & r & m \quad \hat{} \end{array}$
mintai y rhai a'i pregethai —"

Ambell waith ceir ychydig o amrywiaeth yn y ddiweddeb, fel hyn:

$\begin{array}{ccc} f & & r \quad m \quad r \quad \hat{} \end{array}$
(c) "Dy gynulleidfa Di sydd yn trigo ynddi."

Pan ddaw'r Hwyl hon ohoni ei hun ac yn hollol naturiol, y mae'n rhyfedd gymaint o amrywiaeth a geir o newid y r am y f , a'r gwrthwyneb. Llawn cyn rhyfedded ac anodd ei esbonio ydyw'r modd yr osgoir y m , oddi eithr yn y diweddebau, ac yn yr "Amen" ($m-r$ A-men).

Ond blinder i glust a chwaeth ydyw gwranddo pregeth ar ei hyd yn cael ei siantio ar y diwn gyfyng hon, yn enwedig pan fo'r syniadau yn rhy gyffredin i gyfiawnhau mynd i hwyl wrth eu traethu. Ac eto, gwn

am ddau bregethwr gyda'r M.C., un yn Arfon a'r llall yng Ngheredigion na thraethant frawddeg ond yn "nhiwn" y 3ydd Lleiaf!

Yr Hwyl bedwarnod ("tetrachord") r, m, f, s.

Yr esiamplau mwyaf trawiadol o'r Hwyl hon oedd y rhai a glywais lawer gwaith gan rai o hen weddïwyr sir Gaernarfon. Ar ôl erfyn am ysbaid o fewn y cyfrwng *r-f*, deuai rhyw air taerach na chyffredin ar y sain newydd, y *s*: a rhyfedd mor effeithiol y swniai. Fe'i defnyddir yn debyg gan un o bregethwyr gorau yr Eglwys Fethodistaidd. Ychydig o ganu o fath yn y byd a geir ganddo — fe gyfyngir hwnnw i'r rhannau mwyaf ymdeimladol a rheithegol o'r bregeth, a chedwir gan mwyaf i gylch y 3ydd — (*r-f*). Ond yn awr ac yn y man ceir brawddeg fel:

f r m

(d) "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; cryned y bobloedd :

f m r s f r m ^

cistedd y mae rhwng y cerubiaid — ymgynhyrfed y ddaear."

Y mae dau beth arall a deilynga sylw ynglŷn â'r pregethwr llwyddiannus hwn. Y mae ei lais yn soniarus a phersain; ac anaml y defnyddia'r ddiweddeb ddisgynnol sydd mor gyffredin gan rai gweddïwyr a phregethwyr, ac sydd mor ochneidiol a thorcalonnus ei heffaith ar feddyliau'r gwrandawyr.

Anturiais ddywedyd nad oes yr un traddodiad Hebreig na Groegaidd y tu ôl i'r Hwyl Gymreig, er y deil rhai ysgrifenwyr i gredu hynny. Yn wir y mae bron yn sicr fod y dull hwn o fynegi'r teimlad yn reddfol mewn cenhedloedd heb unrhyw berthynas na chyfathrach rhyngddynt a'i gilydd. Dyma enghraifft debyg i "Hwyl y pregethwr Wesla", a roddir mewn llyfr o alawon gwerin rhai o lwythau anwar neu hanner gwâr Panama, Canolbarth yr Amerig. Enw'r llyfr ydyw *Traditiones y Cantares de Panama*. Ar dd. 63, 64, y mae cân hir, a'r cwbl ohoni yn *r-f*, ond y *s* a ddigwydd ddwywaith yn unig. Dyma ddyfyniad:

$\overset{\frown}{r} \ f \ m \ f \ m \ r \qquad \overset{\frown}{r} \ f \ m \ r$
 E ga-lu pi-pi-la mi-ma gue' si E gal-lu ar ma-ye si
 $r \ r \ f \ m \ s \ f \ r \qquad \overset{\frown}{r}$
 Ga-lu pi-bi-la ba-li hi-ma-gue si, etc.

Yn yr enghraifft nesaf o'r Pedwarnod rhoddir mwy o bwysigrwydd ar y s, a chymer le y f neu y r fel y prifnod pwysleisiol.

$s \qquad \qquad \qquad f \ r \ m$
 "Arglwydd, clyw fy ngweddi, a deled fy llef atat.
 $s \qquad \qquad \qquad f \ r \ m$
 Na chudd dy wyneb oddi wrthyf yn nydd fy
 $r \ \overset{\frown}{r} \ s \qquad \qquad \qquad f \ \underline{mr} \ \overset{\frown}{s}$
 nghyfyngder: Yn y dydd y galwyf, brysia, gwrando fi."

Dro'n ôl euthum gyda chyfaill i gyfarfod crefyddol mewn capel gwledig. Yr oeddem dipyn yn hwyr a gorfu inni aros yn y "cyntedd" tra oedd blaenor yn gweddïo. Ni allem ddeall yr un gair, ond dyma frawddegau'r "diwn":

$f \ |m \ s \ f \ m \ r \ \overset{\frown}{r} \ s \ |s \ f \ m \ r \ - \ f \ |m \ \overset{\frown}{f}$
 $s \ |f \ s \ f \ m \ r \ \overset{\frown}{f} \ f \ |r \ f \ - \ r \ m \ |r \ \overset{\frown}{f}$

Yng nghofiant John Jones, Tal-y-sarn, gan Owen Thomas, y mae dwy enghraifft o Hwyl y pregethwr mawr hwnnw, a'r ddwy mor wahanol â phe buasai dau bregethwr wedi eu traddodi. Yn anffodus ni chofnodwyd yr un o'r ddwy yn uniongyrchol o bregethu John Jones, ond o efelychiadau gan ddau berson gwahanol. Y gyntaf o'r ddwy ydyw'r fwyaf diddorol o lawer, ond y mae'n haws gennyf gredu yng nghywirdeb yr ail, yn enwedig gan fod pedwar o gerddorion da yn cytuno ar y cofnodiad. Nid oes ofod i drafod manylion y ddwy enghraifft, ond dyma ddyfyniad o'r ail:

$\begin{array}{ccccccc} r & m & f & s & & f & r \\ \text{Rhywbeth yn perthyn i mi eisoes ydyw tra-} \\ & & \underline{r} & \underline{d} & \underline{r} & \underline{s} & r & m & f & s & & f & m \\ \text{gwyddol barhad. Fe fydd hynny'n fy nychrynu} \\ & & \underline{r} & \underline{s} & & \hat{s} \\ \text{weithiau, etc.} \end{array}$

Ambell waith, fel yn yr enghraifft uchod, fe dd disgyn y llais islaw y cywair r , a chyffwrdd yn ysgafn y d , ond ni wna hyn wahaniaeth hanfodol i'r "Pedwarnod".

Yr Hwyl Bumnod

Yma ychwanegir y l , a chyfoethogir y "diwn" yn ddirfawr.

Dyma enghraifft o bregeth gweinidog Annibynnol a glywais ym Mangor flynyddoedd yn ôl:

$\begin{array}{ccccccc} & & & & \hat{m} & & \\ r & f & & m & r & r & l & r & f \\ \text{"Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd; hwyrfrydig} \\ & & & \hat{r} & & & & & \\ & r & m & d & r & r & l \\ \text{i lid, a mawr o drugarowgrwydd. Nid byth yr ym-} \\ & s & f & r & l & f & m & r & r & f \\ \text{ryson Efe, ac nid byth y ceidw Efe ei ddigofaint.} \\ f & m & r & r & s & f & m & \hat{r} & r \\ \text{Nid yn ôl ein pechodau y gwnaeth Efe â ni; ac} \\ l & s & f & m & r & l & r & \hat{l} \\ \text{nid yn ôl ein hanwireddau y talodd Efe i ni."} \end{array}$

Am enghraifft o'r Hwyl Bumnod o wlad bell awn eto i Panama:

$\begin{array}{ccccccc} s & m & l & m & m & s & l & m & s & m \\ \text{"Ma-chi o-lo Ka-mu tu-le huhu-gu-na nag i-ga-la} \\ & s & m & m & \hat{r} \\ \text{Ko-le-si, ye."} \end{array}$

Yr *Hwyl Ehangaf*, yn cynnwys y t uwchlaw y 5ed a'r d islaw'r cywair. Dyma gofnod o'r seiniau a genid gan un o brif bregethwyr yr Annibynwyr pan glywais ef dro byd yn ôl yng Nghricieth. Er mwyn arbed gofod rhaid bodloni ar roddi'r nodau yn unig, ond nodir y prif adroddnodau yn amlycach na nodau y geiriau llai eu pwys. Yn yr hwyl hon yr oedd trawsgyweiriadau, a'r rheini yn rhoddi amrywiaeth mewn hwyl a allai, heb hynny, fod yn feichus o undonog.

L — — — s f m | R l — — || L — — s f s l t l — — ||

F — — — — | s l — — s f | R l — — ||

(Traws.)

‘L — — s f m | R — — || S — — — f m r | L ||

L — — — s f m | R F — — — ||

(Traws.)

‘R — m | F — m r m | R — || l | r m | R — ||

R — f | s f | r — || R — m f | s — f | r m | D r — ||

Yr hyn a'm synnodd fwyaf ynglŷn â'r pregethwr hwn oedd gwaith fy nghyfaill, Llew Tegid, yn fy sicrhau nad ydyw'r gŵr yn gerddor o gwbl, ac eto canai'n hapus braf ar hyd ei bregeth mewn cywair hollol ddieithr i'r codwr canu cyffredin!

Yn *Hanes Bywyd Dafydd Rolant y Bala*, y mae cofnodiad o ddarn o bregeth, mewn seiniau cerddorol. Fel arfer ysgrifennwyd hi yn y Cywair Lleiaf, ond teimlwn mor gryf fod hyn yn anghywir fel yr anturiais ddweud hynny mewn darlith yn y Bala. Cenaus yr enghraifft ddwy waith — i ddechrau fel y mae yn y llyfr (yn y Modd Lah), ac yna yn y Cywair Doriaidd (Modd Ray).

Yr oedd yno hen ŵr yn gwrando a oedd yn bur gyfarwydd â phregethu Dafydd Rolant, a sicrhodd fi mai yr ail ddull oedd y cywiraf.

Gellir ychwanegu amrywiadau eraill o'r Hwyl Gymreig, ond y mae'r uchod yn enghreifftiau pur deg o'r prif ffurfiau, a phrofant ddau beth:

1. Mai yn y Cywair Doriaidd y rhydd y teimlad fynegiant cerddorol iddo'i hun.

2. Gan fod yr Hwyl i'w chael mewn gwledydd pell oddi wrth ei gilydd, ei bod yn fwy tebyg o ddeillio o reddf yn hytrach nag o draddodiad.

Beth am y priodoldeb o ddefnyddio'r Hwyl wrth bregethu? Fel

y dywedwyd eisoes y mae llawer o wrandawyr â rhagfarn cryf yn ei herbyn; ac, o'r pregethwyr eu hunain y mae lliaws yn ymfalchïo yn y ffaith na byddant byth yn canu eu pregethau.

Yn awr, os yw'r hyn a ddywedwyd uchod yn gywir, geill rhyw gymaint o hwyl ychwanegu'n fawr at ddylanwad yr hyn a draethir. Ond rhaid ei defnyddio'n gynnill; rhaid i'r hyn a fynegir fod â digon o feddwl, o argyhoeddiad, ac o deimlad ynddo i haeddu mynegiant mor eithriadol; a rhaid i'r Hwyl ddyfod ohoni ei hun, a bron heb yn wybod i'r pregethwr.

O hyn y mae'n canlyn na ellir ymresymu mewn hwyl, nac ychwaith adrodd stori ynddi. Gwn am un o bregethwyr gorau Cymru a dreuliai gryn amser i brofi ac egluro ei bwnc, a gwnâi hynny bob amser yn nhôn athro uwchben ei ddisgyblion; ond pan dybiai fod y gwrandawyr wedi cael gafael ar y gwirionedd llithrai i hwyl orfoleddus tra'n cymhwyso'i ddisgeidiaeth at eu calonau. Y mae llawer o'r Eglwysi ac o'r gwasanaethau Pabyddol, yn llafar-ganu ar ddull tebyg iawn i'r Hwyl, a gellir ei wneud yn bur effeithiol, ond ni fedrais erioed ddygymod â chlywed canu'r geiriau, "Let us Pray".

Yn olaf: Fel rheol y mae canu o fwriad ac yn ôl cynllun yn peri fod yr Hwyl yn aneffeithiol; ac y mae dau beth a'u tuedd i ychwanegu at yr anghysur a deimlir wrth wrando ar y cyfryw hwyl — sydynrwydd y newid o lafar i ganu, ac ehangder cylch yr hwyl.

SUMMARY

The above article, which first appeared in the journal Y Cerddor in 1937, attempts to analyse and explain the phenomenon known as the 'Welsh hwyl', a kind of chanting often used by preachers of previous generations. Lloyd Williams, citing a number of examples of 'hwyl' recorded from preachers, concludes that it is an extension of the tonal variations in ordinary speech. Its range is limited, with the minor third a characteristic interval; the instances seem to reflect the Dorian Mode rather than major or minor keys. Far from being peculiarly Welsh, 'hwyl' is not unlike types of chanting recorded from the singing of primitive tribesmen in South America: from this the author concludes that it is a natural style of speech-song for the expression of human emotions.

PLOUGHING WITH OXEN IN GLAMORGAN

T.C. Evans ('Cadrawd') (1846-1918)

Atgynhyrchir yma rannau o ysgrif gan Cadrawd, yr hynafiaethydd a'r casglwr llên gwerin o Langynwyd, a ymddangosodd yn y cylchgrawn *Red Dragon* yn 1883. Yn yr ysgrif hon mae'n trafod yr arfer o ganu wrth yrru'r wedd, ac yn cofnodi enghreifftiau o dribannau Morgannwg. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1885, enillodd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr am gasgliad o lên gwerin Morgannwg, yn cynnwys nifer fawr o dribannau, a gyhoeddwyd yng nghyfrol cyfansoddiadau'r Eisteddfod. Yn 1887 cyhoeddodd ei lyfr enwog ar hanes plwyf Llangynwyd.

The following extracts from an article by Cadrawd, the antiquarian and collector of folk-lore from Llangynwyd, Glamorgan, appeared in the periodical Red Dragon in 1883. The subject of the article is the practice of singing to speed the plough, and Cadrawd cites examples of the stanzas sung, stanzas composed in the triban metre popular in Glamorgan. Two years later, in 1885, Cadrawd won a prize at the National Eisteddfod at Aberdare for a collection of Glamorgan folk literature, which included a large number of tribannau, and which appeared in the published transactions of the Eisteddfod. In 1887 he was to publish a celebrated work on the history of the parish of Llangynwyd.

I have often wondered that the committee of some influential Eisteddfod, during the last twenty years, has not deemed fit to offer a substantial prize for the best collection of "Old Glamorganshire Tribannau". Twenty years hence, the knowledge of the old ox songs and the Tribannau that were sung to them, will have nearly perished, and a chapter in the rural history and industrial economy of our county will be deprived of its special ornament. I have endeavoured, during the last eight or ten years, to collect as many as I could of the old Tribannau, as well as the songs that were sung over the broad fields of Glamorgan in years gone by, for they have to my mind the real merit of presenting to our notice an unsophisticated picture of pastoral life in this our dear old county, long before the advent of the modern style of farming.

In the *Itinerary* of Giraldus Cambrensis through Wales, as early as 1150,* he makes mention of certain remarkable phenomena, which take

*1188 yw dyddiad cywir y gwaith. — Gol.

*The correct date is 1188. — Ed.

place at the annual feast of St Almedha (one of the daughters of Brychain Brycheiniog) in the month of August, at her church, near Brecon. "The crowd of votaries there assembled dance in the church and round the churchyard, when some of them will suddenly fall on the ground in a trance. Those who are suffering from any disease will in the end be cured by this visitation; but those who have done any wickedness during the past year — of which the worst would be the working upon a feast day of the Church — would jump, as in a frenzy, and represent before all the people with their hands and feet whatever work they had unlawfully done on feast days. You may see one man put his hand to the plough, and another as it were guiding the oxen, mitigating their sense of labour by the usual rude song," etc.

Sir Richard Colt Hoare, commenting on this statement in the year 1806, says — "The same habit is still used by the Welsh plough-boys. They have a sort of chant, consisting of half, or even quarter notes, which is sung to the oxen at the plough, the countrymen vulgarly supposing that the beasts are consoled to work more regularly and patiently by such lullaby." Oxen are still, I am told, yoked to the plough in Wiltshire, and were as commonly used in England as in Wales, in the time of Sir Richard, but the English ox drivers never sang to their cattle.

In Glamorganshire it has been a custom of which we need not be ashamed. The old *Tribannau* are quite redolent of the soil from which they sprang, and have in them (whatever the pastorals of England of the last two centuries might show) the very essence of the life and manners of the period to which they belonged. A gentleman, who well remembered the old custom, expressed himself lately in the following manner — "I cannot but feel real regret when I recall to mind the time when the rural life of our county was vocal; when there seemed to be ever soaring upwards from day to day, and from year to year, a kind of musical incense from our fields; or it might be taken as a proclamation of season succeeding season, and the continuance of seed-time and harvest."

As a small contribution towards the preservation of what I consider to be so curious and beautiful, as well as characteristic, a custom of "Old Glamorganshire", I venture to place before your readers the following remarks as to —

THE OX, AND ITS TREATMENT IN GLAMORGAN.

For many hundreds of years it was part of the rural economy of England and Wales that ploughing should be done by oxen. Many traditionary maxims accumulated in all those ages, and were handed down to each

successive generation of husbandmen. This traditional lore contained rules as to the management of the ox: how the animal should be treated; when first put under the yoke; how fed and managed while working; its likes and dislikes, and how they should be humoured; and many other matters relating to the same subject. The gentle disposition and willing obedience of the animal caused him to be looked upon with fondness. Superstition credited him with a kind of occult intelligence, something like that which is attributed to bees. It was thought that the experience of olden times dictated that regard should be paid to the sympathy existing between the ox and its owner. In the popular mind, his association with the manger of Bethlehem gained for the ox — at least at one season of the year — a kind of reverence. At midnight on Christmas-eve it was supposed that he fell on his knees to adore the infant Saviour.

When wassailing was a customary part of the Epiphany festivities — as in certain parts of Herefordshire and Shropshire, up to a very recent date — they never failed to offer the wassail bowl to the best ox, or favourite. In his stall was carefully secreted a sprig of mountain ash, as a charm against witchcraft. If an ox was refractory, it was believed some evil was at hand; and if one happened to fall down in the yoke, it denoted death. On Christmas-eve there was a large cake made by the mistress of the family, and a wassailing bowl of cider and spices, prepared by the master. These were decorated, and borne in triumph to the stall of the leading ox. The ceremony was attended by all the household, the males arranged on one side, the females on the other. The mistress placed her cake on the horns of the ox; the master stirred the bowl, and drank off a flagon with this toast:

I drink to the ox, from his hoof to his horn!
I drink to the ox that treads out the corn!
We'll drink deep of the flagon whilst we are here,
And God send us all good luck through the year.

Then the cup went round, and if, in the meantime, the ox chewed his cud placidly, it denoted good; but if he bowed and looked wildly, it was a sign of ill. If the cake should fall from the horns on the side of the females, they carried it off with great rejoicing, as an omen of their sovereign rule throughout the year. At other times, important events in the family of the owner had, as they occurred, to be communicated to the animal. In the case of a death, it was thought necessary to give him a trifle of mourning to wear upon his horn.

I would not like to assert that positively the ancient Britons adored their oxen and their milk cows, but they had observances which came suspiciously near acts of worship. There are plenty of places in Wales called

after the names of such animals, and, connected with this branch of my subject, I will translate two old Welsh proverbs, to prove that our ancient forefathers believed they were assisted to glory by their cows: "He who owns a milch cow, let him take hold of her tail," says the first of them. The other is: "Every one by the tail of his milch cow." Undoubtedly these sayings alluded to a custom our ancestors had when some one was about dying. They would bring a cow to the sick person, and he was to take hold of her tail, and while in the act of doing so he would repeat some formula which they supposed would save his soul.

It is a most remarkable idiosyncrasy of the ox that he will not work heartily unless he is continually sung to. The practice of the ox drivers the world over is in remarkable unison in this respect. Lady Duff Gordon heard the Egyptian boy ox-driver sing to his beasts on the banks of the Nile, and noted down his song. In her *Letters from Egypt* she says — "As I rode through the green fields along the dyke, a little boy sang to the ox which turned round the musically creaking Sakizeh (*i.e.* a water wheel), the one eternal Sakizeh tune. The words are *ad libitum*, and my little friend chanted:

Turn O Sakizeh to the right, and turn to the left,
Who will take care of me if my father dies?
Turn O Sakizeh, etc.

Pour water on the pigs, and the grapes, and the water melons.

Nothing is so pathetic as that Sakizeh song."

Whatever the rural poetry of England may be able to show under this head, in Wales, and particularly in Glamorganshire, there are perhaps thousands of *Tribannau* (triplets) which rural bards had provided for the use of the boy ox-driver; an essential part of whose education was that his memory should be charged with a sufficient supply of such triplets for his day's work. Some of the *Tribannau* are very old; some, perhaps, as late in date as the year in which oxen were last seen yoked to the plough, and moving across the broad fields of the vales of Glamorganshire. When the last yoke was unfastened cannot be determined to a year, but it would not be much later than 1845. The custom had been slowly dying out ever since 1830. And now, in 1883, the traditions, songs, and all the memories of the centuries which terminated fifty-two years ago, are nowhere to be found but in the perishable keeping of the few gray headed men who were the plough swains of the palmy days of ox driving.


Although the ox likes being sung to at his labour, to keep him from chafing under the indignity of the yoke, yet it was not every, or any kind of song pleased him. There was a set measure, and a time to the driver's

song which it was known his animal loved. The strains were gentle and soothing, with a prolonged note or two in each cadence; but the words also, it was thought, must be such as pleased his intelligence. The animal had a sense of humour which must be gratified by some playful nonsense. He was wise also; therefore, words of sound sense must now and then be chanted to him. He had lively sympathies with the weal and woes of those who owned and tended him; his driver could therefore confide to him the story of his love affairs, or his varied experience in long service. Finally the ox had a modest, though decided sense of his own importance; the strength and beauty of the yoke might thus fittingly be sung, and this, in the full licence of poetry, was done in terms of hyperbolical praise. Altogether these songs formed quite a feature in the happy doings of rural life. Who shall say how many thousands of young hearts have been nurtured into contentment with a life of toil, by the trolling of these songs; or drunk happiness from them with the sunshine of each passing day? In latter life, may not the recollection of them have built up the good citizen by the threefold cord with which they bound him to the hearth he had established for himself in his native village, and by the warmth they infused into his innate feelings of loyalty and patriotism?

The boy ox-driver has become a being of the past, and there is no one now whose duty it is to commit these songs to memory. They are year by year diminishing, but let them not be wholly forgotten. Those that remain, poor though they may be in the eyes of the critic, are yet dear to us all, as the last drop of the exhausted spring of poetry, that once flowed side by side with the life of the people.

THE GLAMORGAN PLOUGH BOY'S SONG

The following is a copy of the old air sung in years gone by, in the neighbourhood of Margam and Llangynwyd, together with a few of the old *Tribannau*.



Cadd Pryse o Bont y Pan-dy Ryw go-llod fawr e-le-ni, Sef
co-lli'r tŷ oedd uwch ei ben, A phart o bren ei we-ly. Ma! Ho!

Mae merched bach y Blaena
Yn gwisgo ffring a lasa;
Modrwy aur ar ben pob bys,
A chwt eu crysau'n llapra.

Mae merched bro Morgannwg,
A'r cyfan yn y golwg;
Yn tynnu llawer llencyn mwyn,
Dros dwyn i dorri'i wddwg.

Mae merched pert Gwladforgan
Yn gwisgo gynau sidan;
Mae rhain mor feined yn eu gwast
A chynffon gast Sion Bifan.

Tri pheth ni châr un Cristion
Yw dadwrdd haid o feddwon;
Gweld offeiriad maes o'i go',
A byw lle bo cybyddion.

Tri dawnsiwr gora 'n Nghymru,
Syr Charles o Gefen Mabli;
Sweier Lewys wych o'r Lan,
A Syr John Carn o 'Weni.

O rhyfedd faint y dwli
I'r byd sy'n cael ei gorddi;
Ar Sul, i'r Siol yn enw llaeth,
Mae'n meddwi'n waeth na *brandi*.

The metre or measure which the oxen seemed to like best was *Triban Cyrch*, or more commonly called, *Triban Morgannwg*. As far as I have been able to ascertain, there was not in any part of Wales anything so systematic with regard to ox-driving as in "*Gwent and Morgannwg*". It was customary to sing to the oxen in Brecknock, Carmarthen, and other counties besides; but it does not appear that there was any set measure. In Glamorgan the metre was invariably the ancient *Triban*, and the old airs which were sung over the broad corn-fields of *Morgannwg* have, according to Edward Williams (*Iolo Morganwg*), been brought down to us from the time of the Romans. Mr John Parry (*Bardd Alaw*), who may be considered one of the highest authorities on Welsh airs, wrote of the Glamorgan Plough Boy Songs as follows: "These songs bear evident marks of their antiquity, for as they appear on paper there is neither rhyme nor reason in them; but like the Swiss *Ranz des Vaches*, when sung by the natives, there is a

characteristic wildness, blended with sweetness and intensity of feeling, that touches the heart."

It is sad to think that there are but few, indeed, of these ancient airs preserved. Miss Williams, of Aberpergwm, in her excellent collection of Welsh airs, has one good specimen. Another may be seen in *Seren Gomer*, for July, 1823, sent to that good old publication by a gentleman who was travelling through the vale in the spring of that year; and who was so delighted by the singing of the swains whilst engaged in ploughing across the surrounding corn-fields that he paused to listen to them, and noted down the tune they so feelingly sang. This air was sent to Dr Crotch, who was at that time Principal of the Royal Academy of Music. He also was so pleased with it that he harmonised it, and it may be seen as arranged by him in Vol. III of *The Transactions of the Cymmrodorion*, and also in Mr J. Parry's *Welsh Harper*, Vol. I, page 140. Mr Parry has another in the same volume, from Mr Aneurin Owen's collection of unpublished Welsh airs, which gained a prize at the Brecon Eisteddfod in the year 1826. It is very probable that the one which appeared in the *Red Dragon* in the interesting article "About Llantwit Major", contributed by Mr T.H. Thomas, belongs to the same family, but by some mistake or other it has been amalgamated with a portion of an old nursery rhyme, which is as follows:


Pan o'wn i'n myn'd t'a'r ysgol
A'm llyfr yn fy'm llaw —
Heibio'r Castell Newydd,
A'r cloc yn taro naw;
Mali, Mali, cwyn, mae heddyw'n foreu mwyn;
Mae'r adar bach yn tiwno a'r Gwch yn y llwyn.

This air ought apparently to be so arranged as to suit the old *Mesur Tribran*.

In addition to the one picked up in the neighbourhood of Llangynwyd I have been favoured by my worthy friend, Mr J. Howells, of St Athan, with another. It is as follows:

Mae gwŷr ym My-nydd Nan-tar, A'i grys yn llai na'i go-lar; A'i
go-lar crys mor fain â 'mys, Nes tyb-iodd Prys y cob-lar
Nad oedd ganddo'r un.

Subjoined is another sent me by Mr Tom Williams, of Pontypridd, which he learned from his father, and which was sung to the oxen in the neighbourhood of Glynogwr:



Dyfynna Cadrawd hefyd o lythyr gan Lewis Morris at William Vaughan. Atgynhychir y llythyr yma fel y'i ceir yn *Additional letters of the Morris of Anglesey (1735-1786)* / gol. Hugh Owen (Llundain, 1947-9), i.255-7.

Cadrawd further quotes from a letter by Lewis Morris to William Vaughan. The letter is here reproduced as it appears in Additional letters of the Morris of Anglesey (1735-1786) / ed. Hugh Owen (London, 1947-9), i.255-7.

ABERDOVEY,
Decem^r 10th 1754

Worthy Sir,

Just now I am arrived in the land of Canaan, from the land of Egypt, and hearing that you were at *plas hên*, I tho't it a Duty Incumbent on me to let you know that I was not only more from place to place, but that I am also alive, and would have been much more so, If I could have happend to meet you in *Meirion*. The other Day a very Odd accident happend to me, and it is what never happend to me before in my life, and as it is what in all probability will also happen to you, I could not help preparing you against that Critical Minute which Came upon me without Notice. It is this: I had a Daughter that was Married in Montgomeryshire, and who according to the course of Nature brought me a Grandson, The news of which was so odd to me, that the *Awen* encouraged by a good Bowl of Punch fell to work and made a new and Entire new piece of it: I hate to be beat^r in old paths up to the knees in dirt, I hope you have receivd *Melinydd Meirion*, this is the Sequel of it, and what will fall to your share as well as myself.

Now the bulk of mankind, and perhaps some persons that pretend to be Criticks, may fall foul of this measure that I have made use of in this as well as in *Melinydd Meirion*, as a loose incoherent *Triban*, too common a measure for any good Poetry, whereas a good Subject ought to have been

treated in Heroic Verse, but peace good Critics, this *Triban* seems to me to be as ancient as *Englyn Milwr*, the most ancient (British verse or perhaps any other) verse in the world. In this kind of Triplet, which was of Eight Syllables, that song called the Book of Job was wrote, which is supposed to be one of Solomon's Songs, and all our ancient British Poetry was in the same kind of Stanza, and when wrote in the Heroic way, was called *Englyn Milwr*; But when wrote in the Lyric Strain, I make no manner of Doubt, nay I am Certain of it, they were called *Tribanau*, so every country had its particular Tune, to which these verses were sung, as *Triban Meirionydd*, *Triban Morgannwg*, *Triban Gwŷr Gwent* &c. The right way of writing a *Penill Triban* is thus, in three lines or *bans*, and not in 4 as usual

Roedd hon yn Felin wisgi,
Yn troi â dwr o tani,
a dwy obenydd a'i Phont bres; yr oedd hi'n llafnes lysti.

Our ancients wrote their *Englyn Milwr* thus,

Fy newis bethau er yn wâs,
March i Estron, a march glas,
a heddyw nid ynt gyfaddas.
LLYWARCH HEN, a Northern prince

When poetry and music came to be acquainted, the last line for the sake of Variety in the sounds of the music follow'd it by Extending its self in a kind of variations, which nature is very fond of; and the *Englyn Milwr* was before really a *Triban*. Yet by the gravity and uniformity of it, was call'd an Heroic *Englyn*, i.e. *Englyn Milwr*, which is the true meaning of the expression, *Heroic Poetry*. But when extended to follow the music it was call'd *Triban*, and you'll see how Easily the *Englyn Milwr* glides into a *Triban*.

fy newis bethau er yn wâs,
Merch i estron, a march glas.
A heddyw'n wir fe ddarfu'r nwy', nid ydynt hwy gyfaddas.

In this there is a kind of a Middle rhyme, which agrees extremely well with the variations of sounds in Music, and a Luxuriousness in the Expression as well as the Sound. So in Effect the ancient *Englyn Milwr* is the same with a *Triban*, and you see it is not such a mean thing as people that know no better would have it to be. Now again to the subject. I never met with an author that made *Henaint* a real person, and so Describd him as a Lodger that Could not be drove out of possession. But as there is nothing new under the Sun, somebody may have hit upon it: notwithstanding which I shall claim it as my own thought; till it can be

proved to the Contrary. I have seen descriptions of old age, but none in this shape; and therefore I send Mr. *Henaint* to wait on you, and let him run about the House till you are ready to receive him as a Lodger, which will be by and by.

How the D . . . I (says you) can this man, among all his troubles in Cardiganshire, write upon such light subjects? No, it is not light. Forty years hence, I prophecy that this song will be of greater value than all the Cunning and Devilish Arts of Cardiganshire, and I look upon the subtilties and arts of men so far below the notice of an Honest man, that I despise them as the meanest worms; and the *Awen*, which raises my Imagination above the Gross Material Creation, is to me the greatest friend in Adversity.

Make much of *Henaint* I send it to you here Inclosed¹ you'll come to Understand him by Degrees, but never so well to the life as when you have a Grandson.

I send you this by way of amusement, and a kind of yearly rent which I owe you, and I hope you'll send me a receipt for it.

I am sir your most obedient
and most humble servant

LEWIS MORRIS.

To W^m Vaughan Esq^r

Am ymdriniaeth bellach â thribannau Morgannwg, gweler Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976).

For further discussion of the *tribannau* of Glamorgan, see Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976).

¹Caniad hanes henaint, printed in the book *Diddanwch teuluaidd*.

HEN GAROL O'R GORORAU

E. Wyn James

Fe glywir rhai o bryd i'w gilydd yn gresynu at y ffaith fod elfennau paganaidd a masnachol yn andwyo gŵyl Gristnogol y Nadolig. Ond y gwir, wrth gwrs, yw nad gŵyl Gristnogol mohoni o gwbl o ran ei tharddiad, oherwydd yn Ewrop y mae cynnal gwyliau ar yr adeg honno o'r flwyddyn yn arferiad sy'n ymestyn yn ôl i gyfnod cynnar iawn.

Yn un peth, mae'n adeg dawel yn y byd amaethyddol ac yn gyfle felly i ymlacio a cheisio codi calon yng nghanol tywyllwch ac oerfel y gaeaf. Ond y mae mwy iddi na hynny. Dyma'r adeg y mae'r dydd wedi cyrraedd ei fyrraf a'r nosweithiau yn dechrau ymestyn eto. O'r herwydd daeth yn ŵyl dathlu cyrraedd pen eithaf y tywyllwch gaeafol a dechrau blwyddyn newydd. Daeth yn gyfnod llawn defodau ffrwythlondeb, er ceisio sicrhau deffro newydd ym myd natur, ac yn adeg llawn pob math o weithgareddau er ennill ffafr y bodau goruwchnaturiol hynny a allai sicrhau llewyrch yn y flwyddyn newydd a oedd yn ymagor. Daeth yn gyfnod o wleda a rhialtwch, o grwydro'r gymdogaeth i ddymuno iechyd a llwyddiant, ac o roi anghenion.

Gan fod bywyd mor gwbl ddibynnol arno, roedd i'r haul le canolog yn y dathlu. Os yw'r cnydau i dyfu, rhaid wrth wres a goleuni'r haul. Mae'n bwysig eithriadol, felly, i gynhaliaeth dyn fod yr haul yn mynd ar gynnydd eto ar yr adeg honno. Ac o gredu, fel y gwnâi'r paganiaid gynt, fod yr haul yn fod dwyfol, yna mae'r cyfan yn magu ystyr grefyddol, gyda sôn am yr haul yn cael ei aileni a'i atgyfodi ac yn y blaen. Yn Rhufain, er enghraifft, ar 25 Rhagfyr bob blwyddyn, cynhelid gŵyl i ddathlu 'Pen-blwydd yr Haul Anorchfygedig'.

Yng nghanol tywyllwch y gaeaf, felly, datblygodd rhyw fath o ŵyl y goleuni, a lle pwysig ynddi i goelcerthi a chanhwyllau. Yn ogystal â dathlu aileni'r haul, credid bod cynnau tanau yn y modd hwn yn fodd i helpu'r haul i fynd ar gynnydd ac i helpu'r ddaear i aildwymo, yn ogystal â bod yn amddiffyniad rhag ysbrydion drwg y tywyllwch.

Ni allai'r Cristnogion cynnar ymuno mewn defodau paganaidd o'r fath, wrth reswm. Ceisiodd rhai ddileu'r dathlu yn llwyr. Ond yn gyffredinol, fe gafwyd ymateb ystwythach. Ymosodwyd yn llym ar yr elfennau hynny yn y dathlu a oedd yn gwbl annerbyniol — megis aberthau dynol, er enghraifft — ac yna ceisio tymheru agweddau eraill a'u diwygio a'u llenwi ag ystyr Gristnogol. Mewn geiriau eraill, yr hyn a

wnaethant oedd cydio yn yr arferion paganaidd hyn a dweud wrth y bobl fod ganddynt ystyr ragorach, ystyr Gristnogol, i'w rhoi i'r dathlu. Ac yn achos yr ŵyl ganol gaeaf, fe'i trowyd yn ŵyl i ddathlu geni Goleuni'r Byd (Ioan 1:9) a Haul Cyfiawnder (Malachi 4:2), y Duw-ddyn a fu farw ac a atgyfododd ac sy'n cynnig bywyd tragwyddol i bawb a gredo ynddo.

Enghraifft dda o Gristioneiddio hen arferion canol gaeaf yw'r garol swynol 'The holly and the ivy'. Cofnodwyd y fersiwn mwyaf adnabyddus ohoni gan y casglwr caneuon gwerin Cecil Sharp (1859-1924) yn swydd Gaerloyw a Gwlad yr Haf ar ddechrau'r ganrif hon. Isod ceir cyfieithiad Cymraeg o'r fersiwn hwnnw gan y Parch. Edmund T. Owen, brodor o Gwm Gwendraeth sydd yn gweithio fel golygydd yng Ngwasg Efengylaidd Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr — cyfieithiad a luniwyd yn arbennig ar gyfer y gyfrol *Carolau a'u Cefndir* (1989). Cafwyd cyfieithiad cynharach o'r garol i'r Gymraeg, gyda'r un llinell agoriadol, gan y cyfieithydd diwyd David Lewis ('Ap Ceredigion'; 1870-1948), un o olygyddion *Emynau'r Eglwys* (1941). (Fe'i gwelir yn y casgliad carolau, *Noel*, a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cerdd Esgobaeth Bangor.) Gellir olrhain y garol Saesneg yn ôl, mewn rhyw ffurf arni, i'r ail ganrif ar bymtheg, ond y mae elfennau hynafol iawn yn perthyn iddi.

Mae addurno tai ar ganol gaeaf â phlanhigion bytholwyrdd yn hen arfer sy'n ymestyn yn ôl i'r cyfnod cyn-Gristnogol. Roedd yn rhan o ddefodaeth baganaidd gysylltiedig â ffrwythlonedd a pharhad bywyd, ac roedd bri arbennig ar blanhigion megis y gelynnen a gariai aeron yn llymder eithaf y gaeaf. Oherwydd ei gysylltiadau agos â defodau'r derwyddon, gwrthodwyd caniatáu addurno eglwysi Cristnogol ag uchelwydd, ac erys hyd heddiw yn addurn i'r cartref yn unig, a'r cusanu odano yn atgof o hen ddefodau ffrwythlonedd. Ond maes o law caniatawyd addurno eglwysi â phlanhigion bytholwyrdd eraill, gan roi iddynt symbolaeth Gristnogol, sef i arwyddo'r bywyd tragwyddol sydd yng Nghrist. Ac, fel y gwelir o'r garol isod, daeth y gelynnen hithau, a'i haeron cochion, yn symbol o Grist a'i farw aberthol.

Mewn hen gerdd Gymraeg o'r enw 'Ymrafael Holyn ac Ifin . . . i'w ganu y Nadolig', ceir hanes gŵr salw (Ifin) yn ceisio mynediad i blas uchelwr (Holyn). Mae'r gerdd hon yn perthyn yn agos i ddosbarth o hen gerddi Saesneg sy'n darlunio ymryson am oruchafiaeth rhwng yr eiddew (= y fenyw) a'r gelynnen (= y gwryw). Ys dywedodd un llyfr Saesneg o'r ail ganrif ar bymtheg: 'Great is the contention of holly and ivy, whether master or dame wears the breeches.' (Ar hyn oll, gw. y

mynegeion i gyfrolau Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd*, a Rhiannon Ifans, *Sêrs a Rybana*, dan 'Holyn ac Ifin'.)

Nid oedd ymrysonau o'r fath wedi'u cyfyngu i Loegr ychwaith. Adeg y Nadolig ar Ynys Manaw, cynhelid gwasanaeth carolau tebyg iawn i'r plygain yng Nghymru. Ar gyfer y gwasanaeth hwnnw, addurnid yr eglwysi â chelyn ac eiddew, ac yr oedd yn arferiad yn ystod y gwasanaeth i'r benywod daflu pys at y dynion. Ac yn wir, hyd at y ganrif ddiwethaf mewn rhai ardaloedd yn ne-orllewin Cymru, byddai'r bechgyn yn curo'r merched â chelyn ar Wyl San Steffan (gw. Trefor M. Owen, *Welsh Folk Customs*, tt.39-41, a Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd*, tt.30-1).

Mae'r garol isod wedi'i phatrymu ar ganeuon ymryson rhwng yr eiddew a'r gelynnen. Ar sail y pennill cyntaf, byddech yn disgwyl i ail gwpled pob pennill sôn am yr eiddew — cymharer, er enghraifft, y dyfyniad hwn o hen gerdd Saesneg ganoloesol, sydd fel petai'n gysylltiedig â gêm lle y mae'r dynion yn y neuadd a'r merched wedi'u cau allan ac yn ceisio mynediad:

Holly with his merry men, they can dance in hall;

Ivy and her gentle women cannot dance at all . . .

Holly and his merry men sit in chairs of gold;

Ivy and her gentle women sit without in fold.

Ond yma, y pennill cyntaf yn unig sy'n sôn am yr eiddew. Yn y gweddill, mae'r eiddew wedi'i ddisodli gan Fair, ac yn lle bod yna ddau hanner gwrthgyferbyniol ym mhob pennill, mae'r ymryson wedi peidio. Cytgord sy'n teyrnasu bellach — fel sy'n gweddu i gân sy'n dathlu dyfodiad Tywysog Tangnefedd i'r byd, yr Un a wnaeth 'y ddwy blaid ddig yn un'. Yr hyn sydd gennym yma, felly, yn ôl pob tebyg, yw enghraifft o rywun yn cymryd pennill neu benillion traddodiadol a'u diwygio a'u datblygu a'u gwisgo ag arwyddocâd Cristnogol.

Dau nodyn am y gytgan i gloi. Yr organ i ddechrau. Offeryn braidd yn wichlyd, digon bach i'w gludo mewn gorymdaith, oedd yr organ llon. Ceir sôn amdano yn y *Canterbury Tales* (a luniwyd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg). Yno, yn y 'Nun's Priest's Tale', dywed Chaucer am y ceiliog balch, Chanticleer: 'His voice was merrier than the merry organ.' Ac yna'r ceirw. Mewn nodyn yn *Bulletin* Cymdeithas Emynau Prydain Fawr ac Iwerddon yn ddiweddar (rhif 183, Ebrill 1990, t.193), dyfynna'r Parch. Ian Stratton o ddogfen a baratowyd gan gyfreithwyr yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf ynghylch yr arferion hynafol a fodolai mewn perthynas â'r 'Cranborne Chase' (ar ffiniau Wiltshire a Dorset). Dywedir yno: 'the borders [of the woods] are

preserved exclusively for the benefit of the deer and are not to be cut by the Woodmen . . . They consist principally of evergreens and berry-bearing plants . . . The two first — the Holly and the Ivy — are called Vert, and are of most service to the deer.'

Yr eiddew a'r gelynnen
Pan ddeuant i'w llawn oed,
Y gelynnen yw y pennaf un
O'r holl brennau yn y coed.

*Haul ar wllith y bore
A cheirw ar y twyn;
Soniarus sain yr organ llon,
Y côr yn canu'n fwyn.*

Daw o'r gelynnen flodyn
Mor wyn â'r lili dlos,
Ac o'r Forwyn Fair daeth Iesu Grist
A marw ar y groes.

Daw o'r gelynnen aeron
Mor goch â'r gwaed eu lliw,
Ac o'r Forwyn Fair daeth Iesu Grist;
Ein Ceidwad annwyl yw.

Daw o'r gelynnen bigau,
A phigau'r draen mor llym,
Ac o'r Forwyn Fair daeth Iesu Grist
Ar ddydd Nadolig gwyn.

Daw o'r gelynnen risgl
Â'i sudd o chwerw flas,
Ac o'r Forwyn Fair daeth Iesu Grist
I'n prynu oll o'i ras.

Carol Saesneg draddodiadol
cyf. Edmund T. Owen (g. 1935)

[Cynhwyswyd rhannau o'r erthygl hon yn wreiddiol yng nghylchgrawn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Caerdydd, rhif 27 (Awst/Medi 1989), ac yn y gyfrol *Carolau a'u Cefndir* (Gwasg Efengylaidd Cymru, 1989).]

SUMMARY

The well-known carol 'The holly and the ivy', recorded by Cecil Sharp early this century, is an instance of a Christian song which contains allusions to pre-Christian customs. Evergreen plants were used for decoration in pagan times because they symbolized fertility, but the holly and its red berries came to represent the sacrifice of Christ on the cross. Holly and ivy feature in an old Welsh poem which depicts the contention for supremacy of male and female, and the custom prevailed in parts of Wales until the nineteenth century of beating girls with holly on St. Stephen's Day. The carol represents the same kind of contention between holly and ivy, except that ivy is replaced by the Virgin Mary, thus perfecting the adaptation of pagan symbolism to a Christian message.



Robin Bowen

ROBIN BOWEN YN ATEB . . .

Holwyd gan Elise Williams

Fe gafodd Robin Bowen ei fagu yn Lerpwl gan rieni o sir Fôn. Ym 1988 ymunodd â'r grŵp Mabsant a chyn hir aeth yn gerddor llawn-amser ar ei liwt ei hun. Erbyn hyn mae'n teithio'r byd yn canu'r delyn deires.

EW Fe gawsoch eich magu yn Lerpwl — a gafodd hyn unrhyw ddylanwad nodedig ar eich cymeriad neu ar eich cerddoriaeth?

RB O do, mae'n rhaid. Mae nhw'n dweud bod pobl Lerpwl yn dueddol o barablu . . . a bod ganddyn nhw synnwyr digrifwch. Mae rhai yn dweud bod y dylanwad Sgows wedi amlygu ei hun ynof fi! O ran cerddoriaeth, y capel oedd y cwbl, nes i'm brawd ddod adre o Goleg Reading â recordiau Alan Stivell (sy'n chwarae'r delyn Geltaidd). Mi es i i bob un o'i gyngherddau yn Lerpwl wedi hynny — a phenderfynu dysgu canu'r delyn Geltaidd. Fe ges i'r gorau o'r ddau fyd yn Lerpwl — y byd Cymreig a'r un Seisnig.

EW Ac yna dod i'r coleg a chlywed Ar Log a sylweddoli bod telyn deires yn bod?

RB Wel, 'roeddwn i wedi clywed am y delyn deires cyn hynny; ond dyma delyn gwbl arbennig Gymreig. Mi es i amdani'n syth.

EW Allwch chi ddisgrifio'r gwahaniaethau sydd rhwng y delyn deires a'r delyn bedal?

RB Mae'r delyn deires lawer yn dalach na'r un bedal. Y rheswm am hyn yw bod y tannau is yn gorfod bod yn hir er mwyn cael digon o sŵn. Tannau gut ydynt, wrth gwrs. Mae sgrôl fawr arni hefyd. Y prif wahaniaeth yw bod rhesi o dri thant ar y deires — nodau'r raddfa fwyaf yn C ar y tu allan — C D E F G A B C — a'r rhai cromatig ar y tu mewn. Felly byddai dau dant C ac yna dau dant D ar y tu allan, ac un tant CH Db/ar y tu mewn a rhwng y ddau bâr arall, fel bod y bysedd yn gallu'i gyrraedd yn weddol hawdd. 'Dwi newydd gael telyn deires newydd — un fawr y tro hwn — a luniwyd gan John Thomas sy'n awr wedi ymgartrefu yng Nghas-blaidd ger Treletert, sir Benfro. Un fach oedd gen i cyn hynny.

EW *A beth am y gwahaniaeth mewn techneg?*

RB Chwarae ar yr ysgwydd chwith i ddechrau. 'Dwi'n hun yn credu bod yna wahaniaeth mawr rhwng techneg chwarae'r ddwy delyn. 'Roedd Nansi Richards ac Edith Evans yn honni nad oedd yna gymaint â hynny o wahaniaeth, ond efallai eu bod nhw yn chwarae'r ddwy delyn â thechneg go debyg yn y dyddiau hynny. Erbyn heddiw mae'r dechneg glasurol gyffredin o chwarae wedi mynd yn ffuantus. Rhaid codi'r penelin yn uchel, anelu'r bys bawd i fyny a'r bysedd eraill i lawr er mwyn cael y pŵer. A hefyd codi'r dwylo oddi ar y tannau wedi taro nodyn. 'Doedd dim o hynny yn y lluniau sydd ar gael o bobl yn chwarae'r delyn deires yn y ddeunawfed ganrif. 'Roedd y delyn yn cael ei phwyso ar yr ysgwydd chwith, a'r breichiau mewn safle naturiol, cyffyrddus — yn is nag ar delyn glasurol er mwyn taro'r tannau'n is. 'Roedd Nansi Richards wastad yn dweud mai anwesu telyn deires yr oedd. Ac wrth chwarae'n is i lawr, ceir tŷn fwy eglur, oherwydd 'dyw'r tant ddim yn dirdynnu cymaint — mae o dan well rheolaeth.

EW *Beth felly yw nodweddion yr arddull werinol?*

RB Mi fues i'n cael te gyda'r ddiweddar Eunice Bryn Williams unwaith ac fe genais y delyn iddi hi — *waltzes* neu rywbeth tebyg. Ac mi ddywedodd hi: "Rydych chi'n canu'r delyn yn wahanol iawn i neb arall: rydych chi'n chwarae'n rhythmig."

A dyna ydi'r brif nodwedd. Er mwyn chwarae cerddoriaeth sydd ar gyfer dawnsio, rhaid cael bywyd ynddi. A 'dwi ddim yn sôn am gyflymdra, ond rhythm — hyd yn oed yn y pethau mwyaf araf. Dyna beth sy'n rhoi teimlad i'r gerddoriaeth. Buaswn i'n dweud nad yw Elinor Bennett ac eraill tebyg iddi, er eu bod yn ddisglair ar y delyn, yn gallu chwarae yn yr arddull werinol.

EW *Peth go syfrdanol i'w ddweud. 'Dydych chi erioed wedi bod yn ffan mawr o'r eisteddfod, naddo?*

RB Do a naddo. Mae'n beth pwysig i Gymru, i'n Cymreictod ac i feithrin ein traddodiad. Ar yr un pryd mae'r arddull 'eisteddfodol', pseudo-werinol wedi cymryd drosodd. Un enghraifft yw'r delyn, ond mae hi wedi digwydd gyda chanu gwerin hefyd. Lleisiau mawr mae'r Cymry yn eu hoffi, ac ychydig o bobl sy'n gwybod beth yw'r wir arddull werinol. 'Dwi yn gwerthfawrogi bod y 'steddfod wedi cadw safon, a rhaid cael safon — ond dim ar draul unrhyw beth arall.

EW *Beth am sesiynau gwerin Cymraeg a Saesneg — a fuoch chi erioed mewn un Gymraeg?*

RB Ers yr Urdd y llynedd, fe benderfynodd rhai ohonom ni ddal i gwrdd yn y Black Boy yng Nghaernarfon — Huw Roberts (4 yn y Bar), rhai o'r grŵp Calennig, a dawnswyr. Ond ar y cyfan, mae gormod o barch gan bobl at y delyn, ac mae nhw'n peidio â chwarae er mwyn gwranddo arnaf fi!

EW *A fydddech chi'n barnu bod nod gwahanol i sesiwn offerynnol Gymreig ag sydd yna i un Seisnig?*

RB Na. Yr unig wahaniaeth ydi'r tonau. Mae pawb yn chwarae gyda'i gilydd, felly nid cyfathrebu yw'r nod, ond pleser wrth chwarae. Wrth gwrs, mewn sesiwn gyda Saeson, yr unig beth ydi fy mod i'n gwybod y tonau Cymreig, a hwythau heb fod! Ond mae nhw'n eu pigo i fyny yn raddol, fel gyda thonau eraill. 'Dydyn nhw ddim yn wrth-Gymreig, ond ar y llaw arall mae ganddyn nhw syniad nad ydi tonau Cymreig yn dda iawn.

EW *Ga i ofyn yn blaen 'te — ydi tonau Gwyddelig yn well na rhai Cymreig?*

RB Na. Mae yna rai sâl Gwyddelig, a rhai sâl Cymreig. Ond 'dwi'n meddwl mai diffyg cyhoeddi sy wedi bod ar donau Cymreig fel nad yw pobl yn gwybod beth sydd ar gael. A hefyd, eu canu mewn arddull boring, heb rhythm.

EW *'Rydych chi wedi dweud mewn erthygl yn Taplas o'r blaen, "Credaf nad yw tonau gwerin yn cydnabod ffiniau gwlad. Y traddodiad a'r cyfrwng sy'n rhoi cenedligrwydd i'r tonau".*

RB Ydw. Er enghraifft, 'dwi newydd ddod ar draws tôn o'r enw 'The Irish Washerwoman'. Gallai hi fod yn Wyddelig, ond mae hi yng nghasgliad Llewelyn Alaw. Nawr, er bod yna nodweddion Cymreig yn bod, 'tasech chi'n rhoi'r gainc 'Llwyn Onn' i Wyddel o ffdilwr, fe fyddai'n swnio'n Wyddelig oherwydd ei arddull wrth chwarae. Yn yr un modd, ar ôl chwarae tôn ar y delyn deires, dwedes i wrth Sgotyn gerllaw, "*That was a Scottish tune*". Atebodd e, "*Anything sounds Welsh if you play it on that thing*." Felly mae'r cyfrwng a'r traddodiad (hynny yw, yr arddull chwarae) yn effeithio ar swm y dôn, a strwythur y dôn hefyd. Dyma sut 'rwy'n gwybod bod John Parry wedi cyfansoddi'i sonatas ar gyfer y delyn deires, ac nid y delyn bedal.

EW *Sut allwch chi fod mor siwr?*

RB Wrth imi ddysgu'r sonata sydd ar fy record gyntaf, gallwn weld yn glir fod popeth yn ffitio o dan y bysedd ac wedi'i gynllunio ar gyfer chwarae ar y delyn deires.

EW *Ar eich record gyntaf fe gynhwyswyd tipyn o wahanol bethau — pethau na fyddai rhai pobl yn eu hystyried yn 'werin' go iawn, nac yn donau Cymreig ychwaith!*

RB Do — ceinciau fel 'Llwyn Onn' ac 'Aberdyfi' a fyddai'n werin i fy nhad, nid tonau dawnio yn unig. Ac fe gynhwysais i rai nad sy'n 'Gymreig' oherwydd 'roedd pawb yn arfer benthycu oddi wrth ei gilydd yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Dim ffiniau!

EW *A beth am unrhyw record arall i ddilyn y gyntaf?*

RB Bydd yr ail allan erbyn Gŵyl Delynau Caerdydd. Y cwmni Music Factory yng Nghaerdydd sydd yn ei chynhyrchu — ar CD a thâp yn unig. Dim vinyl. Mae'n 'digital' i gyd, ac yn cyfleu sŵn y delyn deires fawr yn wych.

EW *A'i henw?*

RB 'Telyn Berseiniol fy Ngwlad'. Llinell o drydydd pennill 'Hen Wlad fy Nhadau' yw'r teitl! Mae hefyd dau lyfr arall gen i fydd allan cyn bo hir — *Tannau'r Ddraig* — casgliad o donau Cymreig ar gyfer y delyn Geltaidd, a Llyfr Alawon Piced John Parry Ddall, Rhiwabon.

EW *Robin Bowen, diolch yn fawr.*

FE DDWEDAI'R HEN DDYN WRTH EI FERCH

Doh G { :s, | d. :- :d | d :- :d | l, :t, :d | s, :- :s, }

Fe dd'we - dai'r hen ddyn wrth ei ferch "O

{ :s, :- :s, | s, :- :s, | f :- :- m :- :r | d :- :- l, :t, :d }

da - cw hen fab tir - ion, A lle braf i

{ l, :- :l, | s, :- :s, | l, :t, :d | r :d :t, | d :- :- d :- :- }

gyn - nal tai Os teim - li ar dy ga - lon."

Fe ddwedai'r hen ddyn wrth ei ferch,
O dacw hen fab tirion,
A lle braf i gynnal tai,
Os teimli ar dy galon.

Braf yw tai, a braf yw tir,
A dweud y gwir amdanyn',
Fy annwyl dad, na ddigiwch ddim,
Ni fynnaf fi mo'r hen-ddyn.

Caet gyda'r hen-ddyn dir a thai,
Caet aur ac arian ddigon,
A da a defaid o bob rhyw,
Yr hyn nis ceir gan feibion.

Mae'n well gen i gael buwch neu ddwy,
O'r sort wyf fi'n eu 'mofyn,
Pe godrwn i hwy i'r un pec,
Na gwrando clec yr hen-ddyn.

Ti gaet eistedd ar ei lin,
Caet yfed gwin a chwrw.
Wel pa lesâd wnâi gwin i mi
Ar lin yr hen fab gweddw?

Ti gaet esgidiau o liw'r pinc,
Ac hefyd sanau sidan,
A gardyson o wstid mân,
Ac arnynt fyclau arian.

Mae'n well gen i gael gardys plaen,
A hosan gwlân y ddafad,
Ac esgid ledr i ffitio 'nhroed,
A mab i fod yn gariad.

Ti gaet fynd i'r gwely gwyn,
O bluf yr adar gwylltion,
A llen lieiniau, a phob peth
Nag sydd i'w cael gan feibion.

Gwell gennyf fynd i wely o frwyn,
A chael mab mwyn o'm hoedran,
Na mynd i'r gwely gwyn o bluf,
A chyda'r hen-ddyn truan.

Nodwyd y gân uchod gan Jennie Williams o ganu David Evans, Aberystwyth, ac fe'i cynhwyswyd yn ei chasgliad o alawon gwerin siroedd Aberteifi, Caerfyrddin a Phenfro a ddyfarnwyd yn ail orau yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1911. Ymddangosodd yr alaw a rhai o'r penillion yng Nghylchgrawn y Gymdeithas, cyfrol 3, rhif 4 (1941). Trwy garedigrwydd Tegwyn Jones cafwyd y penillion eraill oddi ar daflen faled er mwyn eu cyhoeddi yma: gosodwyd y gân yn ddarn prawf yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion Aberystwyth, 1992.

The above song, noted by Jennie Williams from the singing of David Evans, Aberystwyth, was included in her collection of folk-songs of the counties of Cardigan, Carmarthen and Pembroke awarded second prize at the Carmarthen National Eisteddfod in 1911. The melody and some of the verses appeared in the Society's Journal, volume 3, no. 4 (1941). Tegwyn Jones has kindly supplied the missing stanzas from a ballad sheet: the song has been set as a test piece at the National Eisteddfod to be held at Aberystwyth in 1992.

The song records a dialogue in which a father tries to persuade his daughter to marry a rich old man who has land and wealth and can give her all the finery she desires. The daughter, however, would prefer a young man, even if that means a bed of rushes, plain clothes, and an ordinary life.

‘Tasa gen i gynffon, mi faswn i’n ei ysgwyd o,’ oedd geiriau llawen Eunice pan ddychafwyd hi yn un o Is-lywyddion Anrhydeddus y Gymdeithas, a hynny ar bwys ei ffyddlondeb a’i chyfraniad dros y blynyddoedd. Mae’n siŵr fod yr anrhydedd honno, a chael ei hethol yn Is-lywydd Anrhydeddus i’r Gymdeithas Gerdd Dant, wedi rhoi mwy o foddhad iddi na dim arall.

Tywyn, Meirionnydd, bro ei magwraeth, oedd ei gwir gartref, a’i thad, H.T. Davies, oedd y dylanwad mawr yn ei bywyd. Ef, gŵr blaenllaw yn y Gymdeithas Gerdd Dant, a’i dysgodd i ganu penillion, ac ef a’i hanogodd i feistroli’r delyn a’r piano. Bu Eunice hithau yn dysgu ac yn hyfforddi plant ysgol a phlant yr Urdd, gyda’r un gofal a manylder ag a welid yng ngwaith ei thad yn llunio mapiau’r syrfeiwir.

Yn 1970 cyhoeddodd gasgliad o drefniannau dan y teitl *Caneuon Gwerin Cymru*. Daeth dwy gân o’r casgliad yn wir boblogaidd, sef ‘Mil harddach wyt na’r rhosyn gwyn’, a ‘Y fasedg wyau’, y ddwy â phenillion ychwanegol gan R. Bryn Williams, a oedd i ddod yn briod iddi.

Bydd ei threfniant o ‘Gwenno aeth i Ffair Pwllheli’, allan o *Lleisiau’r Werin 3*, yn ddarn prawf yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion Aberystwyth yn 1992, teyrnged haeddiannol i un a dreuliodd flynyddoedd olaf ei hoes yn Llanbadarn ac yn Aberystwyth. Daliodd i ymddiddori yn ei phethau hi — byd cerdd a byd y gân — hyd y diwedd. Cafodd ddawn arbennig i drysori’r cyfan, a gwiw i ninnau drysori’r cof amdani.

NODIADAU

Llyfr diddorol a ymddangosodd eleni yw *Cofio Cantorion: The Welsh Imperial Singers* gan Alun Trevor (Capel Garmon: Gwasg Carreg Gwalch, pris £3.00). Adroddir yma hanes cwmni o gantorion proffesiynol a fu'n canu ym Mhrydain, yr Unol Daleithiau a Chanada rhwng 1926 a 1939, ac a fu'n boblogaidd iawn gan gynulleidfaoedd ym mhobman. Ar 11 Hydref 1927, bu'r Cantorion yn canu ym Mhenucha, Caerwys, cartref Syr John a'r Fonesig Herbert Lewis, a chynhwyswyd alawon gwerin Cymreig ar eu rhaglenni'n gyson. Neilltuir elw o werthiant y llyfr i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn.

Llongyfarchiadau i Phyllis Kinney, aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas, ar dderbyn gradd M.Mus. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru.

Derbyniwyd copïau o'r cylchgrawn *Y Delyn*, a gynhyrchir er 1984 gan Gymdeithas Gymreig y Delyn, Gogledd America. Cyhoeddir y cylchgrawn ddwywaith y flwyddyn, sef yn y Gwanwyn a'r Hydref, a cheir ynddo ysgrifau amrywiol, adolygiadau ar lyfrau a recordiau, a chryn dipyn o newyddion ynghylch gweithgareddau byd y delyn yn America ac yng Nghymru. Yn rhifyn Gwanwyn 1991 ceir portread o'r gwneuthurwr telynau Robert Evans ac ysgrif gan Robin Huw Bowen, 'Nansi Richards and Welsh gipsy music'. Y mae'r cylchgrawn yn adlewyrchu'n fyw iawn y diddordeb sydd yng Ngogledd America yn yr agwedd hon ar y traddodiad Cymreig.

Llywydd y Gymdeithas yw Karen R. Mueller, 838 Elgin Ave., Forest Park, IL60130, U.S.A.

Cyhoeddwyd *Mabsant: casgliad o hoff ganeuon gwerin Cymru* gan Y Lolfa, pris £4.95. Ceir yma 54 o alawon wedi eu trefnu ar gyfer llais a gitâr, gyda chyfieithiadau rhyddiaith a nodiadau hanesyddol, a fydd o werth arbennig i ddysgwyr y Gymraeg a newydd-ddyfodiaid i'r traddodiad gwerin.

NOTES

Among this year's publications is an interesting book by Alun Trevor, *Cofio Cantorion: The Welsh Imperial Singers* (Capel Garmon: Gwasg Carreg Gwalch, price £3.00). The book, which is bilingual and copiously illustrated, tells the story of a company of professional singers who delighted audiences in Britain, the United States and Canada in the years from 1926 to 1939. One of their concerts was that given on 11 October, 1927, at Penucha, Caerwys, the home of Sir John and Lady Herbert Lewis, and Welsh folk-songs appeared regularly in their programmes. Proceeds from the sale of the book will go to the Bro Delyn National Eisteddfod.

Congratulations to Phyllis Kinney, a member of the Society's Executive Committee, on the award of the degree of M.Mus. *honoris causa* by the University of Wales.

The editors acknowledge with thanks receipt of copies of *Y Delyn*, the journal of the Welsh Harp Society of North America. The journal, which has been published since 1984, appears twice a year, in the Spring and Fall, and contains a variety of articles, reviews of books and records, and news of activity in the harp world in North America and Wales. The Spring 1991 number contains an article on the harpmaker Robert Evans and a discussion by Robin Huw Bowen of 'Nansi Richards and Welsh gipsy music', reflecting the extent of North American interest in this aspect of the Welsh tradition.

The Society's President is Karen R. Mueller, 838 Elgin Ave., Forest Park, IL60130, U.S.A.

The volume *Mabsant: a collection of popular Welsh folk songs*, published by Y Lolfa, price £4.95, contains 54 songs arranged for voice and guitar, with English prose translations and historical notes. It will appeal in particular to Welsh learners and to newcomers to the Welsh folk tradition.

CYHOEDDIADAU

Canu'r Cymry

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75



Canu'r Cymry II

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75



Caneuon Gwerin i Blant

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.95



Lleisiau'r Werin

£1.50



Lleisiau'r Werin 2

gol. Rhidian Griffiths £2.50



Lleisiau'r Werin 3

gol. Rhidian Griffiths £2.75



Canu Jim Cro

(Darlith Goffa Amy Parry-Williams 1990)

Meredydd Evans £1.00

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwylllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ddeg rhifyn ar hugain o'i Chylchgrawn, gan gynnwys ymron 600 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau, trafodaethau a chanu.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £4 i oedolion, £6 i wŷr a gwragedd ynghyd, a £1 i blant a myfyrwyr, sy'n sicrhau copi o *Canu Gwerin*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas. Ein Hysgrifennydd Aelodaeth yw: Rhidian Griffiths, Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: (0970) 828683.

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research work. By today, over thirty numbers of its Journal have appeared, including almost 600 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures, discussions and song.

The annual subscription is £4 for adults, £6 for husbands and wives jointly and £1 for children and students, which secures a copy of Canu Gwerin/Folk Song, the annual journal of the Society. Our Membership Secretary is:

Rhidian Griffiths, Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed. Tel: (0970) 828683.

